

ADRODDIAD

HUNANASESU A LLESIANT

BLYNYDDOL

2025/26

HYDREF 2026

*Dyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu
mewn cymuned deg, gynhwysol a gwydn.*



Ein Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol 2025-26

Rhagair	Tud. 3
Cyflwyniad	Tud. 4
Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd	Tud. 4
Ein Cynllun Corfforaethol 2022/27	Tud. 7
Adrodd yn Erbyn ein Hamcanion Llesiant	Tud. 8
Amcan Llesiant 1	Tud. 9
Amcan Llesiant 2	Tud. 19
Amcan Llesiant 3	Tud. 25
Amcan Llesiant 4	Tud. 35
Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn sydd i Ddod a'r Tu Hwnt	Tud. 48

Chwiliwch am yr eicon hwn drwy'r ddogfen; pan fyddwch chi'n ei weld, gallwch ddarllen am y gwaith gwych a wnaed i fwrw ymlaen â Bargen Blaenau Gwent, sy'n dangos y straeon y tu ôl i'r gwaith: yr hyn sy'n newydd neu wedi cael ei gryfhau oherwydd y Fargen.



Croeso i'n Hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2025/26. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein hasesiad o ba mor dda yr ydym wedi perfformio yn ystod y flwyddyn, y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn erbyn Amcanion ein Cynllun Corfforaethol ac, yr un mor bwysig, yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu am yr heriau sy'n wynebu Blaenau Gwent a sut y mae angen i ni ymateb iddynt.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddarparu ystod eang o wasanaethau i drigolion gan hefyd gymryd camau arwyddocaol i newid y ffordd yr ydym yn gweithio fel cyngor. Mae ein huchelgais wastad wedi bod yn fwy na darparu gwasanaethau'n dda. Mae arnom eisiau gwella cyfleoedd bywyd, lleihau anghydraddoldeb a chryfhau cymunedau fel bod Mae Blaenau Gwent yn parhau i ffynnu, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y llynedd fe siaradom ni am ein huchelgais i greu perthynas wahanol rhwng y Cyngor a'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu; un lle mae gan drigolion lais cryfach, lle mae gan gymunedau fwy o rôl o ran llunio blaenoriaethau a datrysiadau lleol, a lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio ochr yn ochr â phobl yn hytrach na dim ond gwneud pethau iddynt neu ar eu cyfer. Yn ystod 2025/26 daeth yr uchelgais honno'n realiti trwy gyflwyno Bargen Blaenau Gwent.

Nid rhaglen nac un fenter mo'r Fargen. Mae'n ffordd newydd o feddwl am sut yr ydym yn gwella llesiant ledled ein bwrdeistref. Mae'n cydnabod na all yr heriau cymhleth sy'n wynebu ein cymunedau, pa un a ydynt yn ymwneud ag iechyd, addysg, yr economi, tai neu lesiant cymunedol, gael eu datrys trwy drefn lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu ar eu pennau eu hunain. Er mwyn eu datrys mae'n rhaid wrth bartneriaethau cryfach, cydgyfrifoldeb a chydabyddiaeth bod gan gymunedau eu hunain gryfderau, gwybodaeth a gallu sylweddol. Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi bod yn gweithio'n helaeth gyda thrigolion, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, busnesau a phartneriaid i ddeall yn well yr hyn sydd fwyaf o bwys i bobl a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella deilliannau. Mae'r gwaith hwnnw wedi atgyfnerthu ein cred bod newid parhaol yn cael ei gyflawni pan fydd cymunedau'n ymwneud yn weithredol â llunio eu dyfodol eu hunain.

Mae'r Fargen hefyd wedi ein helpu i drefnu ein hymdrechion ar sail pum cenhadaeth a rennir sy'n canolbwyntio ar rai o'r heriau hirdymor pwysicaf sy'n wynebu ein cymunedau. Mae'r cenadaethau hyn yn rhoi synnwyr clir inni o gyfeiriad gan hefyd greu'r hyblygrwydd y mae ei angen i ddysgu, arloesi ac addasu wrth i amgylchiadau newid. Maent yn darparu fframwaith y gall trigolion, partneriaid a gwasanaethau cyhoeddus ei ddefnyddio i weithio gyda'i gilydd i greu cymunedau iachach, tecach a mwy gwydn.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi parhau i gryfhau ein partneriaeth ffederal arloesol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Mae'r dull arloesol hwn, sy'n unigryw yng Nghymru, yn adlewyrchu ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod y ddau gyngor yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn wydn ac yn gallu cwrdd â'r heriau cynyddol sy'n wynebu llywodraeth leol. Mae ein gwasanaethau, ein harweinyddiaeth a'n gweithgarwch cynllunio'n cyd-fynd yn fwyfwy â'i gilydd, gan ein galluogi i feithrin capasiti, rhannu arbenigedd a chanolbwyntio ar gyflawni deilliannau gwell i'r bobl a'r lleoedd yr ydym yn eu gwasanaethu ar y cyd.

Er bod llawer i fod yn falch ohono, mae'r adroddiad hwn hefyd yn ei gwneud hi'n glir bod heriau sylweddol yn dal i fodoli. Mae'r galw am lawer o wasanaethau'n parhau i gynyddu. Mae anghydraddoldebau'n parhau. Mae pwysau ariannol yn dal i fod yn sylweddol. Gwyddom nad yw cynnydd yn llinol a bod newid ystyrlon yn cymryd amser.

Yr hyn sy'n rhoi hyder i ni yw'r ymrwymiad a ddangosir bob dydd gan ein staff, aelodau etholedig,

partneriaid, gwirfoddolwyr a chymunedau. Gyda'n gilydd rydym yn datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n gwneud atal, cydweithio, tystiolaeth ac arweinyddiaeth gymunedol yn ganolog i'r hyn a wnawn.

Nid ydym yn honni bod gennym yr holl atebion. Fodd bynnag, rydym yn fwyfwy clir ynghylch y cyfeiriad y mae angen i ni deithio ynddo a phwysigrwydd mynd ar y daith honno gyda'n gilydd.

Ar ran y Cyngor, hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn ac sy'n parhau i fod â rôl i lunio dyfodol cryfach, tecach a mwy cynaliadwy i Blaenau Gwent.



Y Cyngorydd Stephen Thomas
Arweinydd y Cyngor

Stephen Vickers,
Cyd-Brif
Weithredwr



1. Cyflwyniad

Mae ein hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blyneddol yn adolygu ein perfformiad yn ystod 2025/26, yn adnabod meysydd i'w gwella, ac yn edrych ymlaen at y newid sefydliadol sy'n ofynnol hyd at 2027 a'r tu hwnt. Mae'n dwyn ynghyd ein dyletswyddau adrodd statudol


Yr **hyn** y mae gwasanaethau cyhoeddus yn anelu ato

Saith nod llesiant



o dan [Ddeddf](#) Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau [2021](#), gan gynnwys ein hasesiad o ba mor effeithiol yr ydym yn ateb ein gofynion perfformiad. O dan y dyletswyddau hyn, rhaid adolygu ein trefniadau perfformiad yn gyson, ystyried effaith hirdymor ein penderfyniadau, cydweithio gyda phobl, cymunedau a phartneriaid, a helpu i atal heriau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Sut y dylai gwasanaethau cyhoeddus weithio: Pum ffordd o weithio



2. Cenhadaeth, Gweledigaeth a Gwerthoedd

Mae ethos ein Cyd-dîm Gweithredol yn parhau i roi pwyslais cryf ar gydgyfrifoldeb a chymorth cydfuddiannol i gyrraedd nodau cyffredin, wrth weithio tuag at ein hamcanion llesiant.

Tuag at ddiwedd 2026, er mwyn gweithio ymhellach fel Cyngorau ffederal, fe adolygwyd y ddwy weledigaeth ac fe sefydlwyd gweledigaeth newydd ar y cyd: **'Dyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a gwydn'**.

Hefyd, fe adolygwyd gwerthoedd y ddau Gyngor a'r gwerthoedd bellach yw: **Gweithio gyda phobl; Gweithio'n agored; Gweithio gyda'n gilydd i gyflawni**. Mae ein gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant ein sefydliad ac yn llywio ein hymddygiadau, ein credoau a'n hegwyddorion. Mae'r weledigaeth a'r gwerthoedd bellach yn cyd-fynd â'i gilydd a byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, herio a myfyrio. Byddant yn darparu'r fframwaith ar gyfer popeth a wnawn.

'Bargen' a Chenadaethau Blaenau Gwent

Mae Bargen Blaenau Gwent yn gontract cymdeithasol rhwng y Cyngor, trigolion, busnesau a phartneriaid, sy'n ail-lunio sut y mae'r Cyngor yn gweithio trwy symud o "wneud i" at "wneud gyda". A hithau wedi'i gwreiddio mewn cydgyfrifoldeb, atal, tegwch a phŵer cymunedol, mae'n darparu dull atal-yn-gyntaf, sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n gydweithredol o ddarparu gwasanaethau a rhoi'r Cynllun Corfforaethol ar waith.



Bydd y Fargen yn cael ei chyflawni trwy bum cenhadaeth a rennir:

- **Cenhadaeth 1: Y Blynyddoedd Cynnar – Adeiladu Dyfodol Disglair**
- **Cenhadaeth 2: Ysbrydoli Dysgu Gydol Oes, Uchelgais a Gwydnwch**
- **Cenhadaeth 3: Llesiant Trwy Arweinyddiaeth Gymunedol**
- **Cenhadaeth 4: Economi Ffyniannus a Lleoedd Llewyrchus**
- **Cenhadaeth 5: Cymunedau Grymus – Pŵer a Llwyddiant a Rennir**

Ceir rhagor o wybodaeth am Fargen a Chenadaethau Blaenau Gwent yma: [Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent](#)

Ymgysylltu ar y Fargen a Chynulladau Dinasyddion

Er mwyn rhoi cymorth i ddatblygu Bargen Blaenau Gwent, dechreuodd cynllun ymgysylltu amlhaenog yn hydref 2025, gan alluogi rhanddeiliaid, trigolion a phartneriaid i helpu i lunio ei datblygiad trwy ymgynghori, adborth a thrafod. Denodd yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2025 bron i 700 o ymweliadau ar-lein a 250 o arolygon a gwblhawyd, ac yna Cynulliad Dinasyddion a gynhaliwyd ar draws tair sesiwn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2026.



Defnyddiodd y Cynulliad ddull sefydledig i ategu trafodaeth fanwl; casglu gwybodaeth am brofiadau personol ac ystyried y cwestiwn: "Pa egwyddorion ddylai lywio'r berthynas newydd a'r ffyrdd newydd o weithio i wireddu ein uchelgais cyffredin ar gyfer ein bwrdeistref?" Cytunodd y cyfranogwyr ar egwyddorion a oedd yn canolbwyntio ar gynnwys y cyhoedd mewn modd ystyrlon, gwirfoddoli ac arweinyddiaeth gymunedol, hybiau cymunedol, pŵer a rennir a chydweithrediad, balchder a photensial yn y dyfodol, canol trefi ffyniannus, a dysgu a gwranddo gyda'n gilydd. Ceir rhagor o wybodaeth am Gynulladau Dinasyddion Blaenau Gwent yma: [Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent](#)

Blaenau Gwent: Cyngor Marmot – Rhoi Tegwch a Llesiant yn Gyntaf

Mae Torfaen a Blaenau Gwent yn falch o fod y Cynghorau Marmot cyntaf yng Nghymru, sy'n adlewyrchu ymrwymiad hirdymor i leihau anghydraddoldebau iechyd a chreu cymunedau tecach, mwy cynhwysol a gwydn.

Mae'r Uwchgynllun Marmot yn darparu fframwaith 15 mlynedd i wreiddio egwyddorion Marmot yn y ffordd yr ydym yn cynllunio, yn cyflawni ac yn mesur effaith, a ategir gan ddata cadarn a mesurau yn y tymor byr, canolig a hir. Er mwyn gwneud gwahaniaeth ystyrlon, rhaid adlewyrchu'r egwyddorion hyn ar draws gweithgarwch cynllunio sefydliadol, blaenoriaethau, gwasanaethau a phrosesau adolygu.

Gyda'i gilydd, mae'r Cynllun Corfforaethol, Cynllun Llesiant BGC Gwent, Egwyddorion Marmot, y Dull Cymunedau a'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd yn ategu newid diwylliannol a gweithredol tuag at ddull mwy ataliol, a arweinir gan dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar bartneriaeth o wella llesiant yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Flaenau Gwent fel Cyngor Marmot, cliciwch yma: [Blaenau Gwent: Cyngor Marmot | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent](#)

Gallwch ddarganfod mwy am Egwyddorion Marmot yma: [Yr Athro Syr Michael Marmot - IHE](#)

Cymru: Y Genedl Marmot Gyntaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar mai Cymru yw'r genedl Marmot gyntaf yn y byd – carreg filltir arwyddocaol. Mae Torfaen a Blaenau Gwent wedi bod ar flaen y gad yn y daith hon, gan arwain y ffordd a dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd tegwch yn dod yn flaenoriaeth.

Ein Dull Ffederal

Mae Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen wedi sefydlu model ffederasiwn arloesol, gan gynnwys penodi'r Cyd-Brif Weithredwr cyntaf yng Nghymru a chyfnod darganfod a lansiwyd ym mis Mehefin 2024 i archwilio'r posibilïadau ar gyfer integreiddio agosach.

Yn ystod 2025/26, mae'r bartneriaeth wedi symud o archwilio i gyflawni. Mae'r ddau Gyngor wedi ymrwymo'n ffurfiol i gryfhau cydweithio, gwreiddio trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd, cryfhau trefniadau llywodraethu, a sicrhau bod fframweithiau cynllunio corfforaethol, perfformiad ac ariannol yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae hyn yn helpu i gydlynu blaenoriaethau, lleihau dyblygu, gwella goruchwyliaeth a meithrin gwydnwch ar draws y ddau sefydliad.

Mae gwaith wedi cael ei wneud i weithredu cyd-drefniadau llywodraethu corfforaethol newydd, gan gynnwys strwythur arweinyddiaeth ar y cyd; sicrhau bod prosesau, polisïau a strategaethau'n cyd-fynd â'i gilydd; data, technoleg a deallusrwydd artiffisial gwell; Cyd-bwyllgor Penodiadau a threfniadau Craffu ar y Cyd; a Glasbrint ar y Cyd ar gyfer Twf a Chynllun Datblygu Lleol ar y cyd.



Mae'r ffederasiwn yn alluogwr allweddol ar gyfer trawsnewid hirdymor, gan ategu gwasanaethau mwy cynaliadwy, deilliannau gwell i drigolion a model gweithredu cryfach, mwy gwydn ar draws y ddau gyngor.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan y Cyngor ddyletswydd unigol ac ar y cyd. Cyflawnir ein rôl ar y cyd trwy Fwrdd

Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), sy'n dod â phartneriaid o blith gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i asesu llesiant lleol, cytuno ar amcanion llesiant ar y cyd a chymryd camau gweithredu hirdymor i wella deilliannau i bobl a chymunedau ledled Gwent.



Er mwyn cefnogi'r BGC i fynd i'r afael â lefelau uchel o anghydraddoldeb ledled Gwent, mae partneriaid wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd, gan dynnu ar yr egwyddorion arweiniol a adnabuwyd yn adolygiad yr Athro Marmot, Fair Society, Healthy Lives. Arweiniodd y gwaith hwn at yr [Adroddiad Creu Gwent Decach](#) a'r ymrwymiad i Gwent ddod yn rhanbarth Marmot.

Ceir rhagor o fanylion am BGC Gwent yma: [Hafan - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent](#)

Dull Cymunedau

Ochr yn ochr ag Uwchgynllun Marmot a'r Cynllun Corfforaethol, mae'r Dull Cymunedau'n darparu'r model ymarferol ar gyfer cyflawni newid trwy wreiddio atal, ymyrryd yn gynnar, gweithio seiliedig-ar-leoedd a gwydnwch cymunedol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu.

Yn ystod 2025/26, mae'r dull wedi symud o'r cam dylunio i weithredu cynnar, gyda gwaith yn mynd rhagddo i'w wreiddio mewn prosesau cynllunio gwasanaethau, pennu cyllidebau a gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn galluogi newid tuag at ddarparu gwasanaethau mewn modd mwy ataliol, seiliedig-ar-leoedd, sy'n canolbwyntio ar angen lleol, capasiti'r gymuned a chymorth wedi'i dargedu.

Elfen allweddol yw ailddylunio'r model atal a strwythurau'r gweithlu, gan sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn trwy ddealltwriaeth fwy cyfannol am lesiant, gyda chymunedau'n gweithredu fel y llinell gyntaf o ran atal a gwydnwch.

Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd

Yn ystod 2025/26, bu Blaenau Gwent yn gweithio gyda Thorfaen drwy'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd i gryfhau'r defnydd o dystiolaeth ac ymchwil wrth wneud penderfyniadau lleol. Mae'r cydweithrediad yn helpu'r ddau gyngor i ddeall yn well beth yw'r ffactorau ehangach sy'n effeithio ar iechyd a lesiant, cynllunio gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion cymunedau, a meithrin capasiti ymchwil. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar feysydd fel y blynyddoedd cynnar, addysg ac addysg ddewisol yn y cartref, gan gefnogi atal, tegwch a deilliannau gwell i blant, trigolion a chymunedau.

3. Ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027

Mae'r Cynllun Corfforaethol, a fabwysiadwyd ym mis Hydref 2022 ac sydd yn ei le tan 2027, yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gefnogi cymunedau ffyniannus trwy wasanaethau modern, o ansawdd da sy'n hybu twf economaidd a lesiant. Trwy greu'r amodau ar gyfer gweithio'n ddyfnach mewn partneriaeth, cydgyfrifoldeb a thrawsnewid system gyfan, mae dulliau fel Marmot, y Dull Cymunedau a'r model ffederal wedi cryfhau'n sylweddol y modd y cyflawnir y Cynllun, gan ein galluogi i gael mwy o effaith i'n cymunedau.

Mae'r Cynllun yn seiliedig ar bedwar Amcan Llesiant, a ategir gan gynlluniau gwasanaeth i sicrhau atebolrwydd am gyflawni:

- **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn;**
- **Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig;**
- **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn; a**
- **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, yn annibynnol a gwydn.**

Mae'r blaenoriaethau hyn yn canolbwyntio ymdrechion y Cyngor ar wella lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Blaenau Gwent ac ansawdd bywyd trigolion. Fe'u datblygwyd gan ddefnyddio ymchwil, anghenion lleol, gweithgarwch ymgysylltu, yr Asesiad o Anghenion Llesiant ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae fersiwn lawn o'n Cynllun Corfforaethol ar gael i'w lawrlwytho yma [corporate-plan-welsh-22_27.pdf \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant 25/26

Nodir trosolwg o'r cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant yn ystod 2025/26 isod:

Amcan Llesiant	Glas (cam gweithredu wedi'i gwblhau)	Gwyrdd (cam gweithredu ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed)	Ambr (cam gweithredu ddim ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gyda llwybr yn ôl at wyrdd)	Coch (cam gweithredu ddim ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed gyda phryderon sylweddol)
Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn	0	9	5	0
Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig	0	4	5	0
Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, yn annibynnol a gwydn	1	8	8	0
Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn	0	5	5	0
Cyfanswm	1	26	23	0

Ar y cyfan, ar gyfer 2025/26, mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu wedi'u cyflawni. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn bod gennym nifer o heriau i ymdrin â hwy o hyd a bod angen rhagor o waith i gyrraedd pob un o'n nodau hirdymor yn llawn. Cafodd y Swyddogaeth Graffu adroddiad llawn sy'n nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant ym mis Gorffennaf 2026 ac mae ar gael [yma](#).

4. Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant 2025/26

Fel sefydliad sy'n hunan-wella, mae'r Cyngor yn cydnabod yr hyn sydd wedi mynd yn dda a ble y mae angen gwella, gyda hunanasesiad gonest ac agored yn ganolog i wireddu ein huchelgeisiau.

Mae ein Hunanasesiad yn ystyried pa mor effeithiol yr ydym yn arfer ein swyddogaethau, gan ddefnyddio ein hadnoddau, a chynnal trefniadau llywodraethu sy'n ategu gwelliant parhaus. Mae'n darparu trosolwg sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26, yn ôl strwythur sy'n ystyried: **pa mor dda ydyn ni'n gwneud, sut ydyn ni'n gwybod, a beth allwn ni ei wneud yn well?**

Mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd weithgarwch o bob rhan o'r flwyddyn, a oleuwyd gan amrywiaeth eang o dystiolaeth a phroses adolygu drylwyr, gyda ffocws ar asesu cynnydd yn erbyn Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor, cyflawniadau, a'r heriau i'w cyflawni yn y dyfodol.

Amcan Llesiant 1

Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a chadarn

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Fe wnaed cynnydd da yn erbyn Amcan Llesiant 1, yn enwedig o ran deilliannau addysg, llai o waharddiadau, ymgysylltu â phobl ifanc, datblygu STEM a chyfleoedd prentisiaeth lleol trwy Anelu'n Uchel. Fodd bynnag, mae heriau'n dal i fodoli o ran presenoldeb, darpariaeth arbenigol, cymorth i blant sy'n derbyn gofal, cyllid ysgolion a dyfodol cyllid cyflogadwyedd. Bydd angen ffocws parhaus ar ddysgwyr agored i niwed, cynaliadwyedd ariannol a llwybrau clir at sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth.


Yr hyn y dwedom ni y byddem yn ei wneud yn ein Hunanasesiad 2024/25	Yr hyn a gyflawnwyd gennym
Ysgolion i gynhyrchu cynlluniau lleihau diffyg sy'n adnabod effeithlonrwydd ariannol a'u heffaith	Mae'r Awdurdod Lleol wedi gweithio'n agos gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau adfer cadarn mewn ymateb i ddiffyg. Er bod cyllid ysgolion yn dal i fod yn gryn her, gyda'r balansau'n dirywio o ddiffyg o £1.279 miliwn yn 2024/25 i ddiffyg o £2.965 miliwn yn 2025/26 ar draws 15 ysgol, mae hyn yn dal i fod yn sylweddol well na'r diffyg o £4M a ragwelwyd erbyn diwedd mis Mawrth 2026.
Cryfhau cymorth i deuluoedd sy'n ystyried neu'n dewis Addysg Ddewisol yn y cartref trwy roi cyngor ac arweiniad amserol, ac opsiynau mewn ysgolion i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a chadw plant mewn lleoliadau addysg lle y bo'n briodol.	Mae nifer y disgyblion sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE) wedi cynyddu o 229 i 286. Mae cefnogi teuluoedd yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol, gyda phwyslais o'r newydd ar ymyrryd yn gynnar a rhoi cymorth amserol i helpu teuluoedd i wneud penderfyniadau gwybodus a chael mynediad at gyfleoedd addysgol priodol.
Parhau i gefnogi'r 2 ysgol mewn categori Estyn, Canolfan yr Afon a Chymuned Ddysgu Abertyleri	Mae Canolfan yr Afon wedi cael ei thynnu o gategori Estyn, ac mae Cymuned Ddysgu Abertyleri wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn ei hargymhellion gan Estyn.
Blaenoriaethu perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 lle adnabuwyd dirywiadau	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn gymysg ar draws y mesurau a adroddwyd. • Cynyddodd perfformiad A-A* mewn 3 o'r 4 ysgol brif ffrwd. Cynyddodd cyfartaledd 5A*-A Blaenau Gwent 2.1 pwynt canran i 11.5%, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 18.1%. • Sgôr 9 pwynt wedi'i gapio: cynyddodd perfformiad mewn 3 o'r 4 ysgol brif ffrwd. Cynyddodd cyfartaledd Blaenau Gwent 8.6 pwynt i 342.9, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 354.3. • Mesur Llythrennedd: cynyddodd perfformiad mewn 3 o'r 4 ysgol brif ffrwd ond gostyngodd mewn 1 ysgol. Yn gyffredinol, gostyngodd y cyfartaledd 0.6 pwynt i 35.7, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 38.6. • Mesur Rhifedd: cynyddodd perfformiad mewn 2 o'r 4 ysgol brif ffrwd. Cynyddodd y cyfartaledd 0.2 pwynt i 33.6, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 36.0. • Mesur Gwyddoniaeth: cynyddodd perfformiad mewn 3 o'r 4 ysgol brif ffrwd. Cynyddodd cyfartaledd Blaenau

	Gwent 0.5 pwynt i 33.7, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 35.8.
Datblygu Strategaeth Eiddo ar gyfer y Cyngor a phennu targedau perfformiad trwy'r Cynllun Rheoli Asedau.	Mae Strategaeth Eiddo a Chynllun Rheoli Asedau Strategol yn cael eu datblygu, gyda chymorth grŵp asedau corfforaethol newydd.

Sut ydyn ni'n gwybod?

Codi cyrhaeddiad yn ein hysgolion



Fe wnaeth canran y disgyblion a enillodd raddau A* i A wella 2.1 pwynt canran rhwng 2023/24 a 2024/25. Roedd y gwelliant hwn yn bennaf oherwydd bod un ysgol wedi perfformio'n well o lawer, gan fynd y tu hwnt i'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg o 6.6 pwynt canran. Gwellodd canlyniadau merched hefyd; fodd bynnag, fe arweiniodd hyn at gynnydd pellach yn y bwlch a oedd eisoes yn bodoli rhwng perfformiad merched a bechgyn ym Mlaenau Gwent.



Cynyddu Presenoldeb Disgyblion

Mae presenoldeb mewn ysgolion wedi gwella mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol yn fras.

Cynyddodd presenoldeb cynradd o 91.4% ym mis Mawrth 2024 i 92.1% ym mis Mawrth 2025 ac fe arhosodd ar y lefel hon ym mis Mawrth 2026. Er bod perfformiad wedi'i gynnal, mae presenoldeb yn parhau i fod yn is na lefel 2024, ond gostyngodd 0.6 pwynt canran yn y flwyddyn ddiweddaraf ac mae'n parhau i fod dau bwynt canran yn is na'r targed, gan ofyn am ganolbwyntio parhaus ar ymarfer presenoldeb, ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i ysgolion, dysgwyr a theuluoedd.



Gwellodd presenoldeb uwchradd o 87% ym mis Mawrth 2024 i 89.6% ym mis Mawrth 2025, cyn gostwng ychydig i 89% ym mis Mawrth 2026. Dyma'r gwelliant uchaf mewn cyfraddau presenoldeb uwchradd yng Nghymru ar yr adeg hon. Fodd bynnag, mae perfformiad yn dal i fod yn is na'n targed uchelgeisiol o 91%, felly mae angen cymorth

parhaus i ymdrin â rhwystrau i bresenoldeb a chynnal gwelliant.

Mae gwaharddiadau am gyfnod penodol a'r diwrnodau o waharddiadau wedi gostwng ar y cyfan, gan gynnwys mewn ysgolion uwchradd, cynradd ac arbennig. Mae gwaharddiadau mewn ysgolion arbennig yn ymwneud ag un ysgol yn unig. Tarfu'n barhaus yw'r rheswm mwyaf cyffredin o hyd dros wahardd, tra bod cam-drin geiriol neu ymddygiad bygythiol tuag at oedolion yn cyfrif am y golled fwyaf o amser dysgu. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i weithio gydag ysgolion i gryfhau gweithgarwch ymyrryd yn gynnar a chymorth wedi'i dargedu.

Dadansoddi data	Nifer y Gwaharddiadau	Diwrnodau o Waharddiadau	Gwaharddiadau Parhaol
Uwchradd	58	77	1
Cynradd	-89	-77.5	0

Ysgolion Arbennig	-34	-8.5	0
Cynnydd/Gostyngiad (-)	-65	-9	1

Nodyn – Gall Data Gwaharddiadau gynnwys dysgwyr a waharddwyd fwy nag unwaith

Mae gwella presenoldeb yn dal i fod yn flaenoriaeth graidd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae ymgyrch #DdimYnoColliAllan y Cyngor yn hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb da ac yn cyfeirio teuluoedd at gymorth.

Mae'r llwybr presenoldeb, a gyflwynwyd ym mis Medi 2023, wedi gwella presenoldeb mewn llawer o ysgolion lle caiff ei weithredu'n llawn. Bydd y Tîm Lles Addysg yn parhau i weithio gydag ysgolion a theuluoedd trwy'r llwybr a'r gweithgarwch cymorth wedi'i gynllunio lle adnabyddir pryderon ynghylch presenoldeb.



Ysgolion sy'n peri pryder

Yn ystod 2025/26, fe barhaodd y Cyngor i fod â goruchwyliaeth ar berfformiad ysgolion trwy dystiolaeth, trafodaeth broffesiynol a chymorth wedi'i dargedu, gan gynnwys dull Gwasanaeth

Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol a'r dull Tîm o Amgylch yr Ysgol. Fe wnaeth trefniadau cryfach wella monitro a gweithgarwch dilynol, gyda mwy o gymorth i ysgolion yng nghategorïau Estyn, gan gynnwys Bwrdd Gwella Carlam yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri. Roedd y cynnydd yn amlwg, gydag Ysgol Gynradd yr Holl Saint ac Ysgol Gynradd Bryn Bach yn cael eu tynnu o restr yr ysgolion y mae angen iddynt gael eu hadolygu gan Estyn a [Chanolfan yr Afon](#) yn cael ei thynnu allan o'r categori mesurau arbennig. Nid oes unrhyw ysgolion yn dal i gael eu hadolygu gan Estyn mwyach, er bod angen gwelliant sylweddol ar un ysgol, sy'n amlygu'r angen i barhau i roi cymorth wedi'i dargedu er mwyn cynnal cynnydd.



Hawl i Brydau Ysgol Am Ddim (cPYADd)

Mae Blaenau Gwent yn gyson wedi bod â chyfrannau sydd ymhlith yr uchaf o ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Roedd anghysondeb yn y broses yn golygu bod statws yn cael ei gofnodi mewn ffordd a chwyddodd y niferoedd yn artiffisial yn 2020/21 a 2021/22, gyda'r niferoedd bellach yn dychwelyd i lefelau cyn Covid.

Dangosydd	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26
Hawl i gael prydau ysgol am ddim (disgyblion 5 – 15 oed)	25.5%	31.4%	33.3%	24.6%	24.1%	25.3%	26.2%
Hawl i gael prydau ysgol am ddim (pob disgybl)	23.7%	28.4%	30.3%	22.3%	21.9%	23.2%	23.2%

Nodyn – nid oedd ffigyrau 2025/26 wedi'u gwirio ar adeg llunio'r adroddiad.

Mae lefelau presennol y disgyblion sydd â hawl i PYADd yn golygu mai Blaenau Gwent yw'r chweched awdurdod lleol uchaf yng Nghymru. Ymddengys fod hyn yn groes i fesurau eraill o amddifadedd ledled Blaenau Gwent, o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, lle mae lefelau amddifadedd yn uwch.

Rhannu gwisg ysgol am ddim a hanfodion ysgol mewn cymunedau lleol

Trwy weithgarwch y Fargen and Chenhadaeth 2, gall teuluoedd roi a chael mynediad at wisg ysgol ac eitemau hanfodol ar gyfer yr ysgol trwy un platfform lleol. Mae hyn yn helpu i leihau costau, yn cadw eitemau defnyddiol mewn cylchrediad, ac yn cynorthwyo plant i gyrraedd yr ysgol wedi'u cyfarparu ac yn barod i ddysgu. Mae rhannu ac aildefnyddio eitemau yn lleol hefyd yn helpu i leihau gwastraff, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chryfhau cysylltiadau cymunedol.



Disgyblion sy'n Cael Addysg Ddewisol yn y Cartref

Mae nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref ym Mlaenau Gwent wedi parhau i gynyddu yn ystod 2025/26. Ar hyn o bryd mae 286 o ddisgyblion wedi'u cofnodi ar y gronfa ddata Addysg Ddewisol yn y Cartref, o'i gymharu â 229 ar yr un adeg y llynedd, sy'n dangos cynnydd o 24.9%. Mae hyn yn cynnwys 33 o ddisgyblion o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn parhau i gefnogi teuluoedd a monitro trefniadau, gan ganolbwyntio ar gynnal cyswllt priodol a sicrhau bod ymweliadau'n cynyddu yn unol â'r nifer cynyddol o ddisgyblion. Mae hwn yn parhau i fod yn faes y mae gofyn ei oruchwylio'n barhaus i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir a bod y Cyngor yn dal i fod â dealltwriaeth glir am y patrwm addysg newidiol hwn.

Addysg a Phlant sy'n Derbyn Gofal

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, roedd 202 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys 151 o oedran ysgol statudol ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2024/25, a oedd yn gynydd o 141 ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn parhau i gael eu haddysgu yn ysgolion prif ffrwd Blaenau Gwent, er bod y nifer sy'n cael mynediad at leoliadau ysgol arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol wedi parhau i gynyddu, o 14 yn 2023/24 i 24 yn 2024/25. Mae nifer fach yn mynychu lleoliadau annibynnol y tu allan i Flaenau Gwent.

Mae sefydlogrwydd yn yr ysgol yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth baru plant â lleoliadau, gyda chlodiant yn cael ei ddarparu lle y bo angen a phrosesau ar waith i leihau oedi i'r eithaf lle mae symudiadau rhwng ysgolion yn anochel. Fodd bynnag, profodd 22 o blant sy'n derbyn gofal o leiaf un symudiad ysgol nad oedd yn rhan o drefniadau pontio arferol yn ystod 2024/25, o'i gymharu â 10 yn y flwyddyn flaenorol.

Enillodd bron pob dysgwr gymwysterau cydnabyddedig ar ddiwedd addysg statudol, gyda'r mwyafrif yn symud ymlaen i addysg a/neu hyfforddiant ôl-16. Fe wnaeth llinellau amser Cynlluniau Addysg Personol wella'n sylweddol hefyd, gyda 97% wedi'u cychwyn o fewn graddfeydd amser statudol, o'i gymharu â 67% yn y flwyddyn flaenorol; dim ond un cynllun gafodd ei ohirio oherwydd cymhlethdod ac amseriad Plentyn Digwmni yn Ceisio Lloches yn mynd i mewn i leoliad gofal yn hwyr yn y flwyddyn academiaidd.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 0-25

Yn ystod 2025/26, fe wnaed cynnydd da o ran rhoi camau ar waith mewn ymateb i ddiwygio ADY. Mae'r holl ddatganiadau blaenorol o Anghenion Addysgol Arbennig wedi'u trosglwyddo i Gynlluniau Datblygu Unigol, cwblhawyd adolygiadau statudol ar amser, a rhoddwyd darpariaeth gytunedig ar waith gan ysgolion. Mae ysgolion yn dilyn prosesau statudol, mae ymholiadau wedi cael eu rheoli'n effeithiol, ac nid oedd unrhyw achosion tribiwnlys yn yr arfaeth ar adeg llunio'r adroddiad, er bod rhai peth oedi'n dal i fod oherwydd absenoldeb staff a phwysau capasiti.



Mae canllawiau, hyfforddiant a phrosesau wedi'u diweddarau wedi cryfhau'r cymorth ar draws ysgolion, y blynyddoedd cynnar, addysg ôl-16, plant sy'n derbyn gofal, dysgwyr sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref a'r rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r ysgol. Mae cynllunio ar gyfer pontio, cynhwysiant ac ailintegreiddio wedi gwella hefyd, gyda hynny'n cael ei ategu gan adolygiadau o ddarpariaeth arbenigol, gweithgarwch paneli statudol a'r ddarpariaeth ôl-16 newydd yn Vision [House](#), Ysgol Pen-y-Cwm. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar gynnal canllawiau a darpariaeth sefydlu ADY, cryfhau cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a'r blynyddoedd cynnar, a gwella prydlondeb cynllunio ar gyfer pontio ôl-16 a throsglwyddo cofnodion.

Cyllid Addysg

Dyrannodd y Cyngor £60.979 miliwn drwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol yn 2025/26, gyda £283,537 arall yn cefnogi trefniadau gwella ysgolion rhanbarthol.

Mae cyllid ysgolion yn parhau i fod dan bwysau sylweddol. Dirywiodd balansau cyffredinol o ddiffyg o £1.279 miliwn yn 2024/25 i ddiffyg o £2.965 miliwn yn 2025/26, gyda 15 ysgol yn adrodd balansau diffyg. Er bod hyn yn is na'r diffyg cronol a ragwelir o £4 miliwn erbyn diwedd mis Mawrth 2026, mae'r dirywiad o flwyddyn i flwyddyn yn parhau i fod yn sylweddol.

Mae'r Cyngor wedi gweithio gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau adfer diffyg, nodi effeithlonrwydd cynaliadwy a chryfhau monitro ariannol. Efallai bod y trefniadau hyn wedi cyfrannu at y sefyllfa tua £1 miliwn yn is na'r rhagweliad; fodd bynnag, mae angen adferiad pellach. Nid yw sawl ysgol yn gallu gosod cyllidebau cytbwys ar gyfer 2026/27, ac mae risg sylweddol o hyd y bydd balansau cyffredinol yn dirywio ymhellach erbyn mis Mawrth 2027. Bydd cynlluniau adfer yn parhau i fod yn destun craffu uwch swyddogion a monitro parhaus drwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Gwasanaeth Ieuenctid

Parhaodd Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent i ddarparu cymorth cyffredinol, wedi'i dargedu ac arbenigol o ansawdd da i bobl ifanc 11–25 oed, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau, gwella llesiant, cymryd rhan yn eu cymunedau a rheoli cyfnodau pontio allweddol. Yn ystod 2025/26, fe ymgysylltodd y gwasanaeth â 2,032 o aelodau, gan gyrraedd 19% o'r boblogaeth ifanc leol. Er bod aelodaeth wedi gostwng am bod dwy ganolfan ieuenctid wedi cael eu cau dros dro i'w hadnewyddu, cynyddodd cysylltiadau cyffredinol 22% i 29,917, ac ers hynny mae'r ddwy ganolfan wedi ailagor gyda chyfleusterau gwell.

Fe barhaodd pobl ifanc i fod yn ganolog i ddatblygu gwasanaethau, gydag adborth gan dros 300 o bobl ifanc yn llunio blaenoriaethau mewn perthynas â llesiant, sgiliau bywyd, cynhwysiant, cyfleoedd preswyl a mannau cymdeithasol diogel. Fe wnaeth gweithio mewn partneriaeth gryfhau'r ddarpariaeth hefyd, gan gynnwys cyfleoedd Cymraeg a chyfranogiad rhyngwladol trwy Gwpan y Byd Plant y Stryd ym Mecsico.





Fe barhaodd atal a chymorth wedi'i dargedu i fod yn gryfderau allweddol. Fe adolygwyd mwy na 190 o bobl ifanc trwy drefniadau adnabod yn gynnar, fe gysylltwyd â phob un o'r 61 o bobl ifanc nad oeddent yn anhysbys i wasanaethau i ddechrau, ac fe gamodd 97% ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Cyflawnodd y cynllun peilot Addysg Heblaw yn yr Ysgol ddeilliannau cadarnhaol hefyd, gan gefnogi 21 o bobl ifanc, gyda 95% yn dychwelyd i addysg brif ffrwd, presenoldeb cyfartalog o 90%, a llesiant gwell i 80% o'r cyfranogwyr. Mae canran y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 2.6% (16 o bobl ifanc), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 2.1%, ac sy'n dangos yr angen i gynnal ymgysylltiad ar ôl ailagor canolfannau ieuenctid.

Gwasanaeth Addysg Gymunedol i Deithwyr Sipsi / Roma




Mae'r Gwasanaeth Addysg Gymunedol i Deithwyr Sipsi / Roma yn parhau i roi cymorth wedi'i dargedu i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan weithio gydag ysgolion, teuluoedd a'r Gwasanaeth Lles Addysg i gefnogi presenoldeb, dysgu a chynhwysiant. Gwellodd presenoldeb o 76.22% yn 2024/25 i 77.31% yn 2025/26, ac mae cymorth gyda llythrennedd wedi helpu llawer o ddysgwyr i wella eu sgiliau darllen a sillafu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cymorth mewn grwpiau bychain ac un-i-un wedi'i deilwra, gan gynnwys llythrennedd a dysgu galwedigaethol ar gyfer rhai dysgwyr o oedran uwchradd sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref. Mae Padlet Teithwyr Sipsi / Roma wedi cael ei ddatblygu hefyd i helpu ysgolion i ddeall diwylliant Teithwyr Sipsi / Roma yn well, hybu

cynhwysiant a chryfhau ymarfer.

Glasbrint ar gyfer Twf

Mae'r Glasbrint ar y cyd ar gyfer [Twf](#) yn nodi dull hirdymor o gefnogi twf economaidd ledled Blaenau Gwent a Thorfaen trwy fuddsoddi mewn pobl, lleoedd a busnesau. Ei nod yw creu amodau gwell i fusnesau lleol, denu cyfleoedd newydd, cefnogi swyddi o ansawdd da, ac ymateb i heriau fel dwysedd swyddi isel, allgymudo, ac anghydraddoldebau iechyd a sgiliau.

Mae'r Glasbrint yn canolbwyntio ar bedwar maes: **Buddsoddi, Creu Lleoedd, Cynllunio ac Eiddo**, gan gwmpasu twf busnes, canol trefi, cysylltedd, sgiliau, tir ac adeiladau.



Rhoddodd y Pwyllgor Craffu ystyriaeth i'r Glasbrint ym mis Mawrth [2026](#) gan groesawu ei uchelgais a'i ffocws ar gynnwys pobl leol. Bydd ymgysylltu â'r cyhoedd, ymgynghori a chynllun cyflawni blynyddol yn dilyn i helpu i roi'r weledigaeth ar waith.

CDLI Newydd (CDLIN)

Ym mis Mawrth 2026, fe gytunodd y Cyngor i newid o baratoi ei CDLIN ei hun i ddatblygu cynllun ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog, tynnwyd y cynllun blaenorol yn ôl yn ffurfiol, a dechreuodd gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan gynnwys trefniadau llywodraethu, ymgynghori, data a phreifatrwydd. Mae'r ffocws bellach ar ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r trefniadau cyflawni, gan gynnwys Astudiaeth Twf Blaenau Gwent a system

ymgyngori ar y cyd. Mae cydweithio gyda Thorfaen bellach wedi ymwreiddio, gan ategu dull mwy cyson a hirdymor o gynllunio defnydd tir, tai, seilwaith a'r economi hyd at 2041.

Safle Peirianeg Gwerth Uchel (HiVE) (Cyfleuster Addysg Ôl-16 Uwch-Dechnolegol) Cyngor Blaenau Gwent – Prosiect Hwyluso STEM

Roedd agoriad swyddogol [Canolfan](#) STEM HiVE yn garreg filltir bwysig i addysg STEM ym Mlaenau Gwent. Yn ystod 2025/26, datblygodd fel canolfan leol sy'n cysylltu ysgolion, cyflogwyr a darparwyr addysg, gan helpu disgyblion i gael mynediad at brofiadau STEM o ansawdd da, cysylltiadau â chyflogwyr a llwybrau cliriach i brentisiaethau, addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth. Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o yrfaedd STEM, cefnogi datblygiad athrawon a pharhau â gweithgarwch Cynghrair STEM.



Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)

Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr yw'r campws uwchradd cyntaf ym Mlaenau Gwent i gael ei enwi'n Ysgol STEM y Flwyddyn. Mae'r wobwr yn cydnabod ei gwaith i ehangu cyfleoedd STEM trwy ddysgu ymarferol, gweithgareddau â ffocws ar yrfaedd a datblygu sgiliau. Mae STEM bellach wedi ymwreiddio ar draws bywyd yr ysgol, gyda chymorth gofod STEM pwrpasol, offer arbenigol ac ystod eang o weithgareddau a chlybiau, gyda mwy o ferched yn cymryd rhan nag erioed o'r blaen. Mae'r stori lawn i'w gweld [yma](#).

Cynlluniau Creu Lleoedd

Fe wnaed cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni cynlluniau creu lleoedd ar draws canol trefi Blaenau Gwent, gyda'r gwaith yn symud o gynllunio i gyflawni. Mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar wella adeiladau gwag ac adeiladau nas defnyddir ddigon fel y gellir eu defnyddio unwaith eto, gwella safleoedd allweddol a mannau cyhoeddus, cefnogi busnesau a digwyddiadau, a datblygu cyfleoedd adfywio tymor hwy.

- **Glynebwy:** mae'r cynnydd yn parhau ar Borth y Gogledd, gan gynnwys caffael a diwydrwydd dyladwy ar gyfer safleoedd allweddol, trefniadau dros dro ar gyfer y farchnad awyr agored, gwaith dichonoldeb yn Sgwâr yr Orsaf a chyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer hen safle'r Ganolfan Ddinesig.
- **Tredegar:** mae opsiynau'n cael eu datblygu ar gyfer Canolfan Siopa Gwent yn dilyn ei chaffael gan y Cyngor, ochr yn ochr â'r gwaith sydd wedi aildddechrau i adfer hen Adeilad y Bwrdd Glo Cenedlaethol a gwelliannau ehangach yng nghanol y dref.
- **Brynmawr:** fe wnaeth yr Ŵyl Fwyd gyntaf gynyddu nifer yr ymwelwyr, mae gwelliannau i ffryntiad strydoedd a glanhau wedi gwella canol y dref, ac mae'r posibiliadau ar gyfer defnyddio hen Depo Stagecoach yn y dyfodol yn cael eu harchwilio.
- **Abertyleri:** mae hen Gapel y Drindod wedi cael ei wella fel y gellir ei ddefnyddio unwaith eto fel llyfrgell a chyfleuster addysg oedolion, gyda mwy o aelodau ac ymwelwyr, tra bo rhagor o brosiectau pellach yn mynd rhagddynt yn Llyfrgell Stryd y Castell, Sefydliad Abertyleri a thrwy'r Hwb i Dref Abertyleri a arweinir gan y gymuned.

Mae gweithgarwch ehangach yng nghanol y dref wedi bod o gymorth gydag adfywio hefyd, gan gynnwys £400,000 trwy'r rhaglen Trawsnewid Trefi, dros 40 o ddigwyddiadau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ymgyrchoedd siopa'n lleol, murluniau, teithiau a gweithgarwch stondinau dros dro. Mae Siarter Creu Lleoedd Cymru yn parhau i lywio dull gweithredu'r Cyngor, gyda gwyliau bywyd pellach yn yr arfaeth ar gyfer 2026/27. Bydd y Glasbrint ar gyfer Twf sy'n dod i'r amlwg yn darparu fframwaith

ehangach sy'n cysylltu adnewyddu canol trefi â thwf economaidd, sgiliau, trafndiaeth, tai a seilwaith ledled Blaenau Gwent a Thorfaen.

Hwb i'r Trefi

Trwy weithgarwch y Fargen a Chenhadaeth 4, mae Hwb i'r Trefi'n dod â thrigolion, busnesau a thimau'r cyngor ynghyd i wella lleoedd lleol trwy weithredu a pherchnogaeth ar y cyd. Fe wnaeth y cynllun peilot cyntaf yn Somerset Street, Abertyleri, gyflwyno gwelliannau gweladwy i ganol y dref, a bydd gwersi a ddysgwyd o hyn yn cael eu defnyddio i estyn y model i leoliadau eraill yng nghanol trefi.



Cronfa Gymdogaeth Balchder Bro

Adnabuwyd Blaenau Gwent i gael hyd at £20 miliwn dros 10 mlynedd trwy Gronfa Gymdogaeth Balchder Bro Llywodraeth y DU. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ym mis Ionawr 2026, dewiswyd Dyffryn Sirhywi fel y maes blaenoriaeth, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen ar sail amddifadedd, iechyd, cyflogaeth a diogelwch cymunedol.

Mae gwaith bellach yn canolbwyntio ar sefydlu'r sylfeini ar gyfer buddsoddiad hirdymor, a arweinir gan y gymuned, gan gynnwys penodi Cadeirydd Bwrdd annibynnol, datblygu trefniadau llywodraethu, recriwtio Bwrdd Cymdogaeth cynrychiadol a chomisiynu gweithgareddau cyfathrebu a marchnata i godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad ledled Tredegar a Dyffryn Sirhywi.

Bydd y Bwrdd a'r gweithgarwch ymgysylltu'n cefnogi ymgynghori a chyd-ddylunio cymunedol yn hydref 2026, gan sicrhau bod pobl leol yn helpu i lunio blaenoriaethau a'r cynllun buddsoddi yn y dyfodol. Mae themâu buddsoddi posibl yn cynnwys canol trefi, tai, treftadaeth, iechyd a llesiant, trafndiaeth, diogelwch cymunedol, sgiliau, cyflogaeth a seilwaith cymunedol ehangach.

Cronfa Effaith Balchder Bro

Yn ogystal â'r Gronfa Gymdogaeth hirdymor, mae Blaenau Gwent wedi sicrhau £1.5 miliwn trwy'r Gronfa Effaith Balchder Bro i gyflawni gwelliannau gweladwy, cryfhau cymunedau a meithrin balchder lleol cyn y rhaglen fuddsoddi ehangach.

Bydd y cyllid yn ategu tri amcan allweddol:

1. Bwriedir cyflawni **Cymunedau Cryfach a Chapasiti Cymunedol** trwy raglen grantiau cymunedol GAVO, gan gefnogi prosiectau ar lawr gwlad, mentrau lleol a sefydliadau cymunedol i gryfhau llesiant, gwydnwch, cyfranogiad dinesig ac arweinyddiaeth leol.
2. Mae **Iechyd, Llesiant a Mannau Cymunedol** yn cynnwys buddsoddiad o £750,000 ym Mharc Lles Brynmawr i wella cyfleusterau chwarae a hamdden, cefnogi gweithgarwch corfforol a chreu mannau mwy cynhwysol i blant, pobl ifanc a theuluoedd.
3. Bydd **Trefi Ynghyd** yn cefnogi mentrau lleol yng nghanol trefi Brynmawr, y Blaenau a Nant-y-glo, gan annog cyfranogiad cymunedol, cydweithio a balchder bro.

Ar draws yr holl amcanion, bydd prosiectau'n cael eu llunio trwy ymgysylltu â thrigolion, partneriaid, aelodau etholedig a chynrychiolwyr cymunedau i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei arwain gan dystiolaeth, yn cael ei gefnogi'n lleol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau adfywio a datblygu cymunedol ehangach.

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Yn dilyn diwedd rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mae'r Cyngor yn adolygu effaith prosiectau, gan gasglu gwersi i'w dysgu ac ystyried sut y gall cymorth cyflogadwyedd a sgiliau yn y dyfodol gyd-fynd ag anghenion lleol a chyfleoedd cyllido newydd. Er bod rhaglenni fel Trailblazer a buddsoddiad posibl trwy'r Gronfa Twf Lleol yn cynnig cyfleoedd, nid ydynt yn disodli gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin flaenorol yn llawn. Mae'r ffocws



felly ar reoli'r broses bontio'n ofalus, adnabod bylchau, gweithio gyda phartneriaid i gynnal cymorth hygrych, a datblygu dull tymor hwy o ymdrin â chyflogadwyedd a thwf sgiliau ledled Blaenau Gwent.

Y Fargen a Chenhadaeth 4 - Gwaith Celf a Murluniau Cyhoeddus

Mae murluniau a luniwyd gan gymunedau'n helpu i ddod â hunaniaeth, hanes a balchder lleol i fannau cyhoeddus ledled Glynebwy, Brynmawr, Tredegar a'r Blaenau. A hwythau'n cael eu dylunio gyda thrigolion a grwpiau lleol, maent yn cefnogi balchder, ymdeimlad o berthyn, cysylltiad ac uchelgeisiau creu lleoedd ehangach, gyda rhagor o ddylunio dan arweiniad y gymuned yn yr arfaeth ar gyfer lleoliadau yn y dyfodol.

Rhaglen Brentisiaethau Anelu'n Uchel

Parhaodd y Rhaglen Anelu'n Uchel i gynorthwyo pobl leol i gael cyflogaeth a hyfforddiant gan hefyd helpu'r Cyngor a chyflogwyr lleol i ddatblygu sgiliau mewn meysydd gwasanaeth a sectorau allweddol. Fe fwriwyd ymlaen â phrentisiaethau newydd mewn meysydd gan gynnwys trwyddedu, mecaneg cerbydau nwyddau trwm, gweinyddu busnes, gwaith coed, gofal a gwasanaethau cefn gwlad. Ers iddi ddechrau, mae Anelu'n Uchel wedi cefnogi dros 200 o brentisiaid lleol, gyda 150 arall wedi'u cefnogi trwy raglenni partneriaeth cysylltiedig. Yn 2025/26 fe ddathlodd ei 10fed [flwyddyn](#) ac fe gefnogodd 15 o brentisiaid mewnol a 40 o brentisiaid allanol ar draws gweithgynhyrchu a pheirianeg. Cafodd y rhaglen gydnabyddiaeth genedlaethol pan enillodd y Rhaglen Prentisiaethau a Rennir y Wobr Cydweithio a Phartneriaeth yng Ngwobrau IESA gyda Merthyr Tudful.



Rhaglen Trailblazer

Mae'r Rhaglen Trailblazer yn cynorthwyo trigolion economaidd anweithgar i symud yn agosach at waith trwy gymorth wedi'i bersonoli i bobl sy'n wynebu rhwystrau fel anabledd, cyflyrau iechyd, cyfrifoldebau gofalu neu hyder isel. Yn ystod 2025/26, parhaodd i gynorthwyo cyfranogwyr i gael cyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant, gyda model Blaenau Gwent yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac yn cael ei amlygu fel arfer da.



Ers ei lansio, mae'r rhaglen wedi cynorthwyo 240 o gyfranogwyr gyda llesiant meddyliol a chorfforol; 52 i ymuno â grwpiau cymunedol; 71 gyda sgiliau bywyd; 28 i ennill cymwysterau; 45 i wirfoddoli; 18 i gael profiad gwaith; ac 11 i gael treialon gwaith â thâl. Bydd cyflawni yn y dyfodol yn cael ei gryfhau trwy'r system Access Elemental, gan wella monitro a thracio deilliannau cyfranogwyr.

(Llun: Yr Athro Isabel Oliver, prif swyddog meddygol yn ymweld â gweithgarwch Trailblazer)

Eiddo ac Asedau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio'i asedau corfforaethol sy'n weddill yn y modd mwyaf effeithlon posibl, gan gynnwys y Swyddfa Gyffredinol, y Ganolfan Ynni, VITCC a Chanolfan Blant Integredig y Blaenau, gan barhau i ddatblygu ei fodel gweithio hybrid i gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth y Gweithlu.


Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i reoli ei asedau diwydiannol i gefnogi busnesau lleol, cyflogaeth a thwf economaidd ehangach. Bydd y timau Busnes ac Arloesi, Ystadau a Gwasanaethau Technegol yn cydweithio i wella'r asedau hyn, cynyddu meddiannaeth a gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael.

Mae Strategaeth Eiddo newydd yn cael ei datblygu i sicrhau bod penderfyniadau ynglŷn ag eiddo'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor a phennu targedau perfformiad blynyddol trwy'r Cynllun Rheoli Asedau. Mae Grŵp Rheoli Eiddo ac Asedau Corfforaethol wedi cael ei sefydlu hefyd i adolygu anghenion o ran swyddfeydd, statws adeiladau, cyfleoedd arbed costau a defnydd cymunedol o adeiladau, gan gynnwys prydles i tymor hwy a Throsglwyddo Asedau Cymunedol.

Bydd y ffocws yn y dyfodol ar gefnogi grwpiau cymunedol trwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol i ategu cynaliadwyedd hirdymor. Mae Cynllun Rheoli Asedau Strategol drafft yn cael ei baratoi i'w ystyried, gan gynnwys cynlluniau i adolygu a chryfhau polisi a monitro lle mae Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn y cwestiwn.

Portffolio Diwydiannol

Mae portffolio diwydiannol y Cyngor yn darparu amrywiaeth o leoliadau gweithio i gynorthwyo busnesau i ddechrau, tyfu a buddsoddi ym Mlaenau Gwent. Mae hyn yn cynnwys lleoedd cydweithio a swyddfeydd, unedau dechreuol bychain ac adeiladau diwydiannol mwy, gydag unedau sydd ar gael yn cael eu hyrwyddo trwy Hyb Busnes Blaenau Gwent a'r farchnad fasnachol ehangach.



Yn 2025/26, roedd y portffolio yn cynnwys 15 ystâd ddiwydiannol a 193 o unedau gosodadwy, a'r rheiny'n cartrefu 114 o fusnesau ac yn cefnogi mwy na 800 o swyddi. Fe barhaodd meddiannaeth i fod yn gryf, gydag 83% o'r unedau wedi'u meddiannu a 92% o'r arwynebedd llawr wedi'i gosod, gan ddangos galw parhaus am unedau diwydiannol mwy.

Sicrhawyd cyllid allanol hefyd i adnewyddu unedau gwag a chyflawni gwaith gwella ehangach, gan gynnwys uwchraddio toeau a chladin o 2026/27. Bydd hyn o gymorth i ailddechrau defnyddio mwy o unedau, gwella ansawdd a chynaliadwyedd safleoedd cyflogaeth, a chadw busnesau, buddsoddi ynddynt a hybu eu twf yn y dyfodol.

Heriau a Champau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2026/27

- **Cryfhau adferiad ariannol a gwella presenoldeb ar draws ysgolion**, gyda champau gweithredu wedi'u targedu i leihau'r diffyg o £2.965 miliwn ar draws 15 ysgol a gwella presenoldeb tuag at y targedau cynradd o 93% ac uwchradd o 91%.
- **Cryfhau cymorth i blant sy'n derbyn gofal i wella sefydlogrwydd mewn ysgolion**, gan ganolbwyntio ar leihau symudiadau rhwng ysgol nad ydynt yn rhan o brosesau pontio arferol a monitro'r cynnydd mewn lleoliadau ysgol arbennig.
- **Cynnal cymorth hygyrch ar gyfer cyflogadwyedd a chynnydd ieuencid**, yn dilyn diwedd gweithgarwch y Gronfa Ffyniant Gyffredin, i leihau cyfradd y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 2.6% a chynnal ymgysylltiad ieuencid.
- **Dechrau cyflawni cynlluniau ar gyfer adfywio, eiddo ac unedau busnes**, gan gynnwys y Glasbriant ar gyfer Twf, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a chynlluniau asedau, gan hefyd wella'r defnydd o unedau diwydiannol a chynyddu meddiannaeth o'r gyfradd bresennol o 83%.
- **Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol**, gwaith i'w wneud i weithio'n fwy cydweithredol ar draws ardaloedd gwasanaeth Blaenau Gwent a hefyd gyda Chyngor Torfaen.

Amcan Llesiant 2

Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?


Fe wnaed cynnydd da yn erbyn Amcan Llesiant 2, yn enwedig trwy weithgarwch bioamrywiaeth mewn ysgolion a chymunedau, lleihau allyriadau carbon nad ydynt yn seiliedig ar wariant, gosod systemau ynni solar, y Dangosfwrdd Datgarboneiddio a chryfhau ymateb i lifogydd yn dilyn Storm Bert. Fodd bynnag, ceir heriau o hyd mewn perthynas â pherfformiad ailgylchu, mwy o wastraff gweddillol a chymhlethdod cyflawni sero net, yn enwedig oherwydd pwysau costau, bylchau yn y data ac allyriadau caffael.

Yr hyn y dwedom ni y byddem yn ei wneud yn ein Hunanasesiad 2024/25	Yr hyn a gyflawnwyd gennym
Archwilio llwybrau cyflenwi cydategol i wella'r defnydd o fesurau gwella ynni a chynyddu'r defnydd o ECO4Flex ledled y fwrdeistref	Mae ECO4Flex wedi dod i ben ac nid oes unrhyw raglen newydd wedi cael ei chadarnhau.
Meithrin gwydnwch cymunedol rhag digwyddiadau hinsawdd trwy weithio gyda phartneriaid a rhoi'r cynllun gweithredu rheoli llifogydd ar waith	Mae parodrwydd ar gyfer llifogydd wedi gwella trwy waith risg hinsawdd rhanbarthol, Tasglu Llifogydd Cwm a chynnydd ar 19 o gamau gweithredu ar gyfer llifogydd. Mae angen ffocws pellach ar gyfathrebu, seilwaith a gwydnwch cymunedol.
Parhau i weithio tuag at darged ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% ac ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod 2025/26 ar y Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd	Ymgynghorwyd ynghylch y Strategaeth Wastraff newydd, ond gostyngodd y gyfradd ailgylchu i 67.23%, islaw'r targed o 70%, felly mae gwelliant yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
Rhoi'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol a'r Polisi Peillwyr newydd ar waith i ymateb i'r argyfwng natur	Mae cynnydd yn cael ei wneud, gyda gwaith bioamrywiaeth yn dechrau cael ei gyflawni'n ymarferol, er bod capasiti yn dal i fod yn her.

Sut ydyn ni'n gwybod?

Ailgylchu

Fe aeth Blaenau Gwent y tu hwnt i darged ailgylchu Llywodraeth Cymru rhwng 2019/20 a 2023/24, ond ers hynny mae perfformiad wedi gostwng islaw'r targed wedi'i ddiweddarau o 70%. Yn 2025/26, gostyngodd perfformiad ailgylchu ymhellach, sy'n golygu y byddai angen i'r Cyngor ddargyfeirio gwastraff ychwanegol o'r ffrwd gwaredu gweddillol i gael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio i gyrraedd y targed.



Dadansoddiad o berfformiad 2025/26:


Cyfnod	2024/25	2025/26	Gwah.
Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin)	69.83%	69.21%	-0.62%
Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi)	69.27%	67.24%	-2.03%
Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr)	68.40%	67.68%	-0.72%
Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth)	68.03%	64.84%	-3.19%
Blynnyddol (heb ei wirio gan CNC eto)	68.89%	67.23%	-1.66%

Mae data tunelledd 2025/26 yn dangos cynnydd mewn gwastraff gweddillol, gwastraff bwyd a gwastraff o’r ardd o’i gymharu â 2024/25, ochr yn ochr â gostyngiadau mewn ailgylchu deunyddiau sych ar garreg y drws, ailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac ailgylchu masnachol.

Mae’r data’n dangos sefyllfa sy’n gryn her, gyda gwastraff gweddilliol yn cynyddu tra bo ffrydiau ailgylchu allweddol, gan gynnwys ailgylchu deunyddiau sych ar garreg y drws, ailgylchu mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref ac ailgylchu masnachol, wedi lleihau. Os bydd perfformiad yn parhau i fod yn is na’r targed statudol, gallai’r Cyngor wynebu cosb ariannol, er bod data 2025/26 yn dal i fod yn amodol ar wirio gan CNC ac fe allai newid.

Strategaeth Wastraff 2026–2031

Er mwyn mynd i’r afael â’r diffyg, mae’r Cyngor wedi ymgynghori ar Strategaeth Adnoddau a Gwastraff newydd 2026–2031, sy’n canolbwyntio ar leihau gwastraff gweddillol, cynyddu cyfranogiad mewn cynlluniau ailgylchu a rhoi cymorth i ailddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei ategu gan welliannau gweithredol, gan gynnwys cerbydau ailgylchu newydd, cynlluniau ar gyfer casgliadau plastig hyblyg a threfn orfodi gryfach. Mae mentrau ailddefnyddio, gan gynnwys Canolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu Roseheyworth a The Den, hefyd yn helpu i ddargyfeirio gwastraff rhag cael ei waredu a chefnogi economi fwy cylchol.



Ailddefnyddio ac atgyweirio

Parhaodd gweithgarwch ailddefnyddio ac atgyweirio i gefnogi arferion atal gwastraff, ailgylchu a'r economi gylchol ledled Blaenau Gwent, gan helpu trigolion i gael mynediad at eitemau a gwasanaethau mewn modd mwy fforddiadwy a chynaliadwy a hefyd lleihau deunyddiau a waredir. Fe wnaeth hefyd gefnogi llesiant ehangach trwy annog gweithgarwch corfforol, creadigrwydd, cyfranogiad cymunedol a dewisiadau mwy cynaliadwy. Roedd y mentrau allweddol yn cynnwys:

- **Ystafell Gitiau Gymunedol yng Nglyn Ebwy**, sy'n darparu offer chwaraeon a hamdden hoffus;
- **Llyfrgell y Pethau yn Sefydliad Llanhilledd**, sy'n galluogi trigolion a grwpiau i gael benthyg yn hytrach na phrynu;
- **digwyddiadau dros dro i atgyweirio beiciau**, a roddodd gymorth gydag atgyweiriadau, cynnal a chadw a theithio llesol;
- **ailddefnyddio trwy gelf**, a helpodd ysgolion a phobl ifanc i ddeall gwerth uwchgylchu; a
- **Chanolfan Ailddefnyddio ac Ailgylchu The Den yn Roseheyworth**, sy'n galluogi trigolion i roi a phrynu eitemau wedi'u hailddefnyddio o ansawdd da.


Tipio Anghyfreithlon a Glanhau Strydoedd

- Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig £400 a ddyroddwyd am droseddau tipio anghyfreithlon: 93;
- Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig £300 a ddyroddwyd mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal am wastraff masnachol: 84; a
- Nifer yr hysbysiadau cosb benodedig £300 a ddyroddwyd mewn perthynas â'r ddyletswydd gofal am wastraff y cartref: 4.

Arwyr Sbwriel Lakeview

Er mwyn cyfoethogi'r Fargen a chyflawni agweddau ar Genhadaeth 2, mae gan Ganolfan Ddydd Lakeview ym Mrynawr grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi cofrestru gyda Cadwch Gymru'n Daclus i sefydlu grŵp casglu sbwriel. Gyda chymorth darpariaeth Allgymorth Cymunedol y Cyngor, bob wythnos mae gwirfoddolwyr yn cynnal sesiynau casglu sbwriel sy'n cyfrannu at strydoedd glanach, mannau cyhoeddus mwy diogel ac amgylchedd mwy croesawgar i bawb.

<http://intranet/media/224870/CaseStudy-A4-2up-LakeView.jpg>



Bioamrywiaeth



Parhaodd y Cyngor i gefnogi bioamrywiaeth trwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol a'r prosiect Cysylltu Tirweddau, gan symud o gynllunio i gyflawni'n ymarferol yn ystod 2025/26. Mae gwaith wedi canolbwyntio ar wella cynefinoedd, adfer rhywogaethau, monitro, cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys digwyddiad Ewch yn Wylt!, Prosiect Tylluan Wen, gwelliannau i fioamrywiaeth ar draws ysgolion, ystadau tai, safleoedd hamdden a mannau cymunedol, ac arolygon o dir a safleoedd natur lleol sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r gweithgarwch hwn yn cryfhau tystiolaeth leol, yn gwella cynefinoedd, yn cefnogi adferiad bywyd gwyllt ac yn cynnwys mwy o drigolion a gwirfoddolwyr mewn gwaith adfer natur. Y brif her o hyd yw capasiti o fewn y Tîm Bioamrywiaeth, yn enwedig ers i swydd y Swyddog Adfer Natur ddod yn wag. Mae angen rhagor o waith i wreiddio bioamrywiaeth yn gyson ar draws y Cyngor a chryfhau trefniadau adrodd.



Stiwardiaeth coetiroedd dan arweiniad y gymuned

Trwy weithgarwch y Fargen a Chenhadaeth 5, mae'r Cyngor a grwpiau coetiroedd cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i wella mynediad, cynefinoedd, buddsoddi a chyfranogiad ym Mryn Sirhywi. Mae'r model stiwardiaeth ar y cyd hwn yn cyfuno gwybodaeth gwirfoddolwyr gyda chymorth y cyngor, gan gadw mannau gwyrdd gwerthfawr yn hygyrch a chroesawgar yn ogystal â chefnogi bioamrywiaeth, gwirfoddoli, dysgu a llesiant. Mae Bryn Sirhywi wedi ennill ei Gwobr Gymunedol y Faner Werdd gyntaf, gyda gwaith pellach yn yr arfaeth i gryfhau mynediad, arferion rheoli cynefinoedd a gwaith datblygu gwirfoddolwyr ar draws y ddau safle. <https://vimeo.com/1209543662>



Sero Net 2030

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio tuag at ei uchelgais Sero Net 2030 trwy Gynllun Datgarboneiddio 2020–2030, a ategwyd yn ystod 2025/26 gan adolygiad canol cyfnod a Dangosfwrdd Datgarboneiddio Power BI newydd. Mae'r rhain yn gwella dealltwriaeth am berfformiad carbon, costau ynni a'r camau gweithredu y mae eu hangen i gefnogi llwybr mwy realistig at sero net sefydliadol. Mae angen rhagor o waith i gryfhau'r modd y mae carbon yn cael ei dracio, mynd i'r afael â bylchau yn y data a gwella'r modd y mae gweithgareddau cynhyrchu solar yn cael eu monitro.

Caiff y ffigyrau allyriadau carbon uniongyrchol diweddaraf sydd ar gael eu dangos isod. Nid yw'r rhain yn cynnwys allyriadau caffael seiliedig-ar-wariant, sy'n llai addas ar gyfer tracio cynnydd ac yn dibynnu'n fwy ar weithredu gan gyflenwyr a marchnadoedd ehangach.

	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	Newid o'r Flwyddyn Sylfaen	Newid o'i gymharu â'r llynedd
Tunnell o CO2e y flwyddyn									
Allyriadau carbon nad ydynt yn seiliedig ar wariant	14,783	11,818	13,100	12,353	11,951	11,368	10,677	-28%	-6%

Adeiladau yw'r ffynhonnell fwyaf sy'n achosi allyriadau uniongyrchol o hyd. Mae gosodiadau solar wedi parhau ar draws yr ystâd ysgolion, gyda chynlluniau pellach yn yr arfaeth, ac mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin wedi bwrw ymlaen â gosodiadau yng Nghanolfan Chwaraeon Glynebwy a Pharc Bryn Bach. Mae cyllid wedi cael ei sicrhau hefyd i wella Rhwydwaith Gwresogi Ardal y Gweithfeydd, gan gefnogi mwy o effeithlonrwydd, llai o ddefnydd o ynni a chostau rhedeg is. Mae allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael hefyd yn cael eu hystyried trwy fanylebau cyflenwyr, dulliau cyflenwi a chynlluniau lleihau carbon, gyda gwaith ar y gweill i wella data allyriadau cyflenwyr a thargedu camau gweithredu yn y dyfodol mewn modd mwy effeithiol.

Sero Net 2050

Mae gwaith tuag at Sero Net 2050 wedi canolbwyntio ar deithio tecach, gwyrddach a mwy hygyrch. Mae'r cynnydd wedi cynnwys ymateb y Cyngor i argymhellion teithio'r Fforwm Dinasyddion ([sydd wedi'u cyhoeddi](#)), sefydlu grŵp teithio corfforaethol, gwaith ar fannau gwefru cerbydau trydan i drigolion heb le i barcio oddi ar y stryd, a chyfranogiad yn Solar Together. Mae defnydd lleol isel o Solar Together yn dangos yr angen i wneud dewisiadau carbon isel yn fwy hygyrch ac ymarferol i breswylwyr.



Addasu i Effeithiau Newid Hinsawdd

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu Asesiad Risg Newid Hinsawdd Gwent, gyda mewnbwn gan swyddogion ar draws y sefydliad i adnabod risgiau newid hinsawdd sy'n effeithio ar asedau a gwasanaethau'r Cyngor. Bydd y gwaith hwn, ochr yn ochr â'r dull ffederal gyda Thorfaen sydd wrthi'n datblygu, yn helpu i gryfhau gweithgarwch cynllunio a chyflawni ar gyfer addasu i newid hinsawdd, gan adeiladu ar weithgarwch ymateb i lifogydd diweddar trwy Dasglu Llifogydd Cwm a gwaith addasu ehangach yng Nghwm a Llanhilledd. Yn ystod 2025, cymerodd y Cyngor ran yn Solar Together De-ddwyrain Cymru trwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan helpu trigolion i gael mynediad at baneli solar a darpariaeth storio ynni mewn batris trwy gynllun prynu ar y cyd. Ym Mlaenau Gwent, cymerodd 12 o aelwydydd ran: fe gafodd 10 osod paneli solar ac fe ychwanegodd 2 ddarpariaeth ar gyfer storio ynni mewn batris at systemau presennol. Roedd y defnydd ychydig yn uwch na'r lefel a ragwelwyd gan broffil y farchnad ar gyfer Blaenau Gwent, a bydd y Cyngor yn cymryd rhan yn y cynllun Switch Together eto yn 2026.

Storm Bert

Yn dilyn Storm Bert ym mis Tachwedd 2024, a achosodd darfu sylweddol mewn ardaloedd gan gynnwys Cwm, Cwmtyleri a Llanhilledd, fe wnaeth y Cyngor adolygu ei drefniadau parodrwydd ar gyfer llifogydd ac ymateb i argyfwng. Fe wnaeth yr adolygiad adnabod yr angen am welliannau mewn parodrwydd gweithredol, cyfathrebu, cynllunio seilwaith a gwydnwch cymunedol. Mewn ymateb, sefydlwyd [Tasglu](#) Llifogydd Cwm, sy'n dangos dull ymarferol a arweinir gan y gymuned o gynllunio at argyfwng, amddiffyn rhag llifogydd a pharatoi ar eu cyfer, a hynny'n gysylltiedig â Bargen Blaenau Gwent. Adroddwyd am y cynnydd yn erbyn yr 19 o gamau gwella a adnabuwyd i ymdrin â llifogydd wrth y Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror, ac mae'r adroddiad llawn a'r cynnydd i'w gweld [yma](#)




Cynllunio

Yn 2025/26, roedd rhan fwyaf o geisiadau wedi'u penderfynu ar amser, gwell perfformiad gorfodi, a dim penderfyniadau gan y Pwyllgor Cynllunio a oedd yn groes i argymhelliad swyddogion. Fodd bynnag, mae ceisiadau hŷn a mwy cymhleth yn dal i effeithio ar amseroedd penderfynu cyfartalog, yn rhannol oherwydd pwysau staffio, system a capasiti. Mae gwelliannau o ran recriwtio, hyfforddiant a phrosesau ar y gweill i gryfhau gwydnwch a chefnogi gwelliant pellach yn 2026/27.

Cyflwynir adroddiadau mynych am berfformiad cynllunio i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor. Gellir dod o hyd i adroddiadau chwarterol blaenorol [yma](#).

% Y CEISIADAU CYNLLUNIO A BENDERFYNWYD AR AMSER



Heriau a Champau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2026/27

- **Gwella perfformiad ailgylchu** trwy gynyddu cyfraddau ailgylchu yn ôl tuag at y targed o 70%, lleihau gwastraff gweddillol, a chryfhau perfformiad ar draws ffrydiau ailgylchu allweddol.
- **Cynyddu gweithgarwch atal gwastraff a chyfranogiad y cyhoedd** trwy annog trigolion i leihau gwastraff, ailgylchu'n fwy cyson, a rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Wastraff newydd trwy gamau gweithredu mesuradwy.
- **Cryfhau gweithgarwch i gyflawni sero net** trwy ymdrin â bylchau yn y data, gwella'r modd y mae allyriadau caffael ac adeiladu'n cael eu monitro, a thracio effaith cynhyrchu solar yn fwy effeithiol.
- **Gwella gwydnwch hinsawdd a pharodrwydd am argyfwng** trwy gryfhau cyfathrebu, gwaith gynllunio seilwaith, parodrwydd gweithredol a gwydnwch cymunedau rhag llifogydd, gan ddysgu o effaith Storm Bert.
- **Cynnal capasiti a gwydnwch gwasanaethau** trwy reoli pwysau staffio, system a llwyth gwaith i gynnal cynnydd mewn bioamrywiaeth, cynllunio a darparu gwasanaethau'n ehangach.

Amcan Llesiant 3

Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, yn annibynnol a gwydn

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Ar y cyfan, mae'r cynnydd yn erbyn yr Amcan Llesiant hwn yn gadarnhaol, gyda chymorth ataliol a chymunedol yn helpu preswylwyr i gadw'n ddiogel, yn annibynnol ac yn gysylltiedig. Mae gweithgarwch allweddol ar draws ymyrryd yn gynnar, Canolfannau Clyd, technoleg gynorthwyl, gofalwyr di-dâl, atal digartrefedd, gofal plant, chwarae, gwydnwch bwyd, anableddau dysgu ac iechyd meddwl yn cyfrannu at lesiant. Fodd bynnag, mae'r galw a'r cymhlethdod yn dal i fod yn uchel ar draws gwasanaethau oedolion a phlant, yn enwedig ym maes diogelu, gofal cartref, seibiant, cymorth iechyd meddwl arbenigol, tai a lleoliadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae angen ffocws parhaus i wreiddio atal, cryfhau ymgysylltiad â gofalwyr di-dâl, dangos tystiolaeth o ddeilliannau a rheoli pwysau parhaus.

Yr hyn y dwedom ni y byddem yn ei wneud yn ein Hunanasesiad 2024/25	Yr hyn a gyflawnwyd gennym
Gwella'r modd y darperir Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, adolygu cyllid cyfalaf a symleiddio prosesau	Cwblhawyd 102 o grantiau, gyda buddsoddiad ychwanegol eleni'n cynyddu'r gyllideb a fuddsoddiwyd i £880,000 ar y cyfan ac amseroedd cyflawni'n gwella. Mae galw, tai addas a fforddiadwyedd yn dal i fod yn bwysau.
Parhau i fonitro mentrau digartrefedd	Mae gwaith atal digartrefedd yn parhau trwy brydlesu, Tai yn Gyntaf, Fflatiau STAR a chaffaeliadau. Mae'r galw am dai fforddiadwy'n dal i fod yn uchel ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymdeithasau tai trwy ein Partneriaeth Tai Strategol i gyflymu datblygiadau newydd. Mae ein harlwy atal digartrefedd yn dal i dyfu mewn ymateb i'r galw cynyddol, gyda phrydlesu ychwanegol, prosiectau Tai yn Gyntaf, fflatiau STAR a chaffaeliadau eiddo symud ymlaen / â chymorth
Rhoi Strategaeth Cartrefi Gwag y Sector Preifat 2025–2030 ar waith	Mae gwaith yn parhau i wella cartrefi gwag fel y gellir dechrau eu defnyddio eto, gyda chymorth y Strategaeth Dai, prydlesu, caffaeliadau a datblygu tai fforddiadwy.
Monitro risgiau i gynaliadwyedd y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys swyddi a ariennir â chyllid grant, y gweithlu a chapasiti	Mae'r galw a'r cymhlethdod yn dal i fod yn uchel ar draws y gwasanaethau cymdeithasol. Mae risgiau'n cael eu rheoli trwy atal, ailddylunio gwasanaethau, recriwtio a gweithio mewn partneriaeth.
Monitro cost ac effaith lleoliadau'r Gwasanaethau Plant	Mae pwysau o ran digonolrwydd a chostau lleoliadau'n dal i fod yn sylweddol, ac mae angen rhagor o waith i leihau'r ddibyniaeth ar leoliadau annibynnol a phreswyl.
Cynyddu gofalwyr maeth ym Mlaenau Gwent	Mae recriwtio a chadw gofalwyr maethu yn dal i fod yn flaenoriaethau, ochr yn ochr â lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau annibynnol.
Gwella mynediad at ofal, cyfleusterau a therapïau i blant sy'n derbyn gofal a leolwyd yn lleol	Mae'r cymorth wedi cryfhau trwy'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol, datblygu ein MyST (My Support Team) ymhellach a darpariaeth breswyl leol. Fe barhaodd gwaith parhaus gyda chydweithwyr lechyd i sefydlu pecynnau gofal priodol gan gynnwys therapi trwy'r Panel Anghenion Cymhleth a'r broses Gofal Parhaus.
Parhau i weithredu'r Strategaeth Plant sy'n Derbyn Gofal a monitro niferoedd.	Arhosodd nifer y plant sy'n derbyn gofal ar ddiwedd y flwyddyn bron yn ddigyfnewid ar 202, o'i gymharu â 201 y flwyddyn flaenorol, tra bod nifer y derbyniadau i ofal wedi cynyddu o 53 i 73. Yn ystod y flwyddyn, daeth 72 o blant â'u statws â gofal i ben trwy gwblhau achosion gofal,

	rhyddhau Gorchmynion Gofal neu symud arfaethedig i leoliadau teuluol, byw â chymorth neu fyw'n annibynnol. Daeth tîm Plant sy'n Derbyn Gofal pwrpasol yn weithredol ar 1 Ebrill 2026 i gryfhau'r gwaith rhyddhau a chynlluniau symud ymlaen.
--	--

Sut ydyn ni'n gwybod?

Dull Cymunedau a Hybiau Cymunedol

Parhaodd y Dull Cymunedau i aeddfedu yn ystod 2025/26, gan gefnogi uchelgais y Cyngor i rymuso trigolion a meithrin cymunedau mwy gwydn, hunangynhaliol. Mae'r Model Hybiau Cymunedol yn parhau i fod yn ganolog, gan ddarparu drws blaen lleol ar gyfer cyngor, cymorth digidol a chyfeirio, gan wella mynediad at gymorth yn nes at adref a'i gwneud yn bosibl adnabod anghenion yn gynharach.

Mae trefniadau cryf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol, gwasanaethau tai, y gwasanaeth iechyd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cyngor ar Bopeth a grwpiau cymunedol wedi cefnogi cymorth lleol mwy cydgysylltiedig mewn perthynas â llesiant, cyflogaeth, cyngor a chynhwysiant digidol. Mae'r dull hefyd yn helpu trigolion i feithrin hyder, annibyniaeth a sgiliau digidol, gan gyd-fynd â blaenoriaethau trawsnewid ehangach gan gynnwys ymyrryd yn gynnar, atal, hybiau cymunedol a [gweithgareddau](#) meithrin capasiti cymunedol.

Mae data, mewnwelediad a gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau yn siapia gwasanaethau ac yn targedu cymorth yn fwyfwy, ond mae angen rhagor o waith i wreiddio'r model yn gyson, cryfhau tystiolaeth o effaith, a chynorthwyo cymunedau a sefydliadau lleol i ymateb yn weithredol i heriau a chyfleoedd lleol.

Cymunedau Oed-Gyfeillgar a Chanolfannau Clyd

Mae'r rhaglen Cymunedau Oed-Gyfeillgar yn cynorthwyo trigolion i heneiddio'n dda, cynnal eu cysylltiadau a chael mynediad at gymorth yn eu cymunedau. Yn ystod 2025/26, fe barhaodd Canolfannau Clyd i ddatblygu gyda phartneriaid, gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i ddarparu mannau diogel a chroesawgar ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol, gweithgareddau, cyngor a chyfeirio. Mae rhai canolfannau bellach yn gweithredu y tu hwnt i'r gaeaf a gallant hefyd ddarparu mannau oer yn ystod gwres eithafol, gan gryfhau gwydnwch cymunedol trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r rhaglen hefyd wedi cefnogi allgymorth wedi'i dargedu mewn lleoliadau cymunedol yr ymddiriedir ynddynt, gan helpu preswylwyr i gael mynediad at gyngor ynghylch ynni, ymwybyddiaeth o ddementia, cymorth gyda chostau byw a chyfleoedd iechyd a llesiant ehangach. Mae hyn wedi gwella mynediad at wybodaeth, wedi bod o gymorth gydag atal ac ymyrryd yn gynnar, ac wedi helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol.

Ymyrryd yn Gynnar ac Atal

Yn ystod 2025/26, fe wnaed cynnydd da o ran ddatblygu dull cliriach, mwy cydgysylltiedig o ran Ymyrryd yn Gynnar ac Atal. Mae adolygiad cynhwysfawr wedi mapio gweithgarwch cyfredol, wedi adnabod achosion o ddyblygu, cyflawni anghyson, pwyntiau mynediad lluosog a bylchau mewn gwybodaeth am berfformiad, ac wedi sefydlu sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer ailddylunio.

Mae'r model sy'n dod i'r amlwg yn defnyddio dull "cymunedol yn gyntaf", gan gefnogi trigolion yn gynharach trwy ddarpariaeth leol, llwybrau atgyfeirio cliriach, drws ffrynt mwy cyson, rheoli achosion yn gydgysylltiedig a defnyddio data'n well i leihau'r galw am wasanaethau statudol.



Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar ddatblygu system atal integredig, gyda threfniadau llywodraethu cryfach, deilliannau cliriach, mesurau perfformiad cyson a goruchwyliaeth well ar fuddsoddi mewn atal.

Adolygiad Hamdden

Canfu adolygiad annibynnol a gwblhawyd gan Bartneriaethau Lleol fod Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn cael ei rhedeg yn dda, yn cael ei gwerthfawrogi gan gymunedau ac yn cefnogi nodau'r Cyngor ynghylch llesiant, dysgu ac atal. Argymhellodd yr adolygiad y dylid cadw model yr Ymddiriedolaeth, gan gryfhau aliniad â'r Cyngor, gwella cynaliadwyedd ariannol, cynyddu incwm, alinio gwasanaethau ac ailadeiladu cronfeydd wrth gefn. Bydd y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun adfer a datblygu, wedi'i ategu gan gynllun busnes â ffocws pendant, gyda chynnydd yn cael ei fonitro trwy fesurau perfformiad y cytunwyd arnynt, Dangosyddion Perfformiad Allweddol a goruchwyliaeth ariannol. Canfyddiadau'r adroddiad llawn: [yma](#).

Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy a chymorth atal

Yn ystod 2025/26, fe barhaodd Gwasanaethau Oedolion a Phlant i reoli lefelau uchel o alw gan hefyd ganolbwyntio ar gymorth cynnar, atal, diogelu, annibyniaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau. Fe wnaeth y Gwasanaethau Oedolion wella llwybrau ar gyfer asesu a gofal wedi'i gomisiynu, gyda llawer o ymholiadau'n cael eu datrys ar adeg yr atgyfeiriad yn hytrach na bod asesiad gofal cymdeithasol hirdymor yn ofynnol.




Fe brofodd y Gwasanaethau Plant alw parhaus hefyd trwy'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, sy'n adlewyrchu pwysau diogelu parhaus a chymhlethdod cynyddol teuluoedd. Rheolwyd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau heb ymyrraeth statudol, sy'n awgrymu bod sgrinio wrth y drws blaen, penderfyniadau ynghylch trothwyon a llwybrau ymyrryd yn gynnar yn gweithredu'n gymesur, gan alluogi gwasanaethau statudol i ganolbwyntio ar blant a theuluoedd â'r lefelau uchaf o angen a risg.

Technoleg Gynorthwyol

Mae Technoleg Gynorthwyol, gan gynnwys larymau llinell fywyd, synwryddion a thechnoleg GLYFAR, yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol gartref am gyfnod hwy, yn hybu llesiant, yn lleihau arwahanrwydd ac yn helpu i atal yr angen am gymorth iechyd a gofal cymdeithasol mwy dwys.


Yn ystod 2025/26, cwblhaodd y Cyngor raglen fawr i ddisodli larymau llinell fywyd analog ag unedau sy'n gydnaws â thechnoleg ddigidol cyn trosglwyddo i ddigidol ledled y DU ym mis Ionawr 2027. Mae glanhau data hefyd wedi gwella cywirdeb cofnodion y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gael ei hyrwyddo



trwy weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a sianeli'r Cyngor, gan gefnogi mwy o ddefnydd gan gwsmeriaid newydd. Bydd hyrwyddo Technoleg Gynorthwyol a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg yn parhau i helpu mwy o bobl i barhau i fod yn annibynnol gartref.

Diogelu

Fe arhosodd y galw am ddiogelu'n uchel ar draws gwasanaethau oedolion a phlant yn ystod 2025/26. Cynyddodd atgyfeiriadau diogelu oedolion ychydig, gan barhau â'r duedd tuag i fyny yn y tymor hwy, tra bo' cynnydd mwy mewn ymholiadau diogelu'n awgrymu bod achosion yn mynd yn fwy cymhleth. Bydd y Tîm Diogelu Oedolion yn parhau i fonitro niferoedd a chymhlethdod atgyfeiriadau.



Mae trefniadau diogelu plant yn cael eu cynnal gyda gweithgarwch y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dangos bod plant yn cael eu cofrestru'n briodol lle cyrhaeddir trothwyon risg a bod eu henwau'n cael eu tynnu i ffwrdd lle mae'r risg wedi lleihau. Fe arhosodd perfformiad prosesau ac ymweliadau amddiffyn plant statudol yn uchel, gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion statudol a threfniadau llywodraethu effeithiol lle mae diogelu yn y cwestiwn.

Cyflwynir adroddiadau diogelu yn flynyddol trwy broses ddemocrataidd y cyngor ac fe'u categoraiddir ar wahân ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant ac Addysg. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i sicrhau tryloywder, cynnal atebolrwydd, a darparu goruchwyliaeth ar arferion diogelu ar draws

pob maes gwasanaeth, gan alluogi'r cyngor i fonitro cynnydd, ymdrin â phryderon, a chynnal y safonau uchaf o ofal a diogelu ar gyfer unigolion sy'n wynebu risg.

Mae'r adroddiadau diogelu diweddaraf i'w gweld yma:

- [Adroddiad](#) Perfformiad Blynyddol Diogelu Addysg
- [Adroddiad](#) Perfformiad Blynyddol Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- [Adroddiad](#) Perfformiad Blynyddol Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

Taliadau Uniongyrchol

Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu dull Taliadau Uniongyrchol ffederal ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen, gan gefnogi gwasanaeth mwy cynaliadwy, gwydn a chyson. Bydd un Rheolwr Tîm yn goruchwyllo'r ddau dîm am 12 mis tra bo strwythurau a modelau darparu ar gyfer y dyfodol yn cael eu hadolygu. Bydd hyn yn cryfhau'r arlwy Taliadau Uniongyrchol, gan roi mwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd i drigolion allu llunio gofal yn seiliedig ar eu hanghenion, cefnogi annibyniaeth a gwella deilliannau llesiant.

Comisiynu

Treialwyd y system Care Cubed i gefnogi dull mwy cyson, tryloyw a seiliedig-ar-dystiolaeth o bennu ffioedd gofal. Trwy ddarparu gwybodaeth wedi'i meincnodi am gostau, mae'n helpu comisiynwyr i ddeall costau gofal, goleuo trafodaethau ynghylch ffioedd, dyrannu adnoddau'n effeithiol a hybu trefniadau teg, cynaliadwy sy'n ategu ansawdd a deilliannau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

gofal. Bydd y peilot yn parhau yn 2026/27, gyda thimau comisiynu Blaenau Gwent a Thorfaen yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu defnydd o'r system i'r eithaf a rhannu gwersi a ddysgwyd i'r eithaf.


Cydlynwyr Timau Amlddisgyblaethol Gofal Sylfaenol

Mae cydlynwyr Timau Amlddisgyblaethol o fewn y Tîm Adnoddau Cymunedol wedi cryfhau cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trwy wella atgyfeiriadau, adolygiadau, camau dilynol a rhannu gwybodaeth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth neu newidiol. Mae hyn wedi bod o gymorth i wneud penderfyniadau mwy amserol, lleihau dyblygu a gwella cymorth cymunedol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bwriedir cyflwyno hyn ymhellach, gyda'r practis meddygon teulu nesaf i fod i gael ei gynnwys ym mis Medi 2026.

Gofal a Chymorth Hirdymor

Fe wnaeth cymorth i oedolion ag anableddau dysgu, pobl ag anghenion iechyd meddwl a phobl ifanc sy'n troi'n oedolion barhau i ganolbwyntio ar annibyniaeth, atal, dewis a chynnwys y gymuned. Fe wnaeth Cabanau Sgiliau Byw'n Annibynnol, Trailblazers, Opsiynau Cymunedol a gweithgarwch cyflogaeth â chymorth helpu pobl i fagu hyder, sgiliau pob dydd a chyfleoedd trwy wirfoddoli, cymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth a chyfranogiad cymunedol.

Mae ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad personol yn helpu i lunio cymorth yn y dyfodol a gwella gwybodaeth hygyrch, gan gynnwys ynghylch dyheadau ar gyfer gwaith a gwirfoddoli a rhwystrau fel hyfforddiant, ymwybyddiaeth cyflogwyr, cyngor ynghylch budd-daliadau a chludiant. Parhaodd cymorth seibiant yn Nhŷ Augusta i ddatblygu hefyd, gyda chynnwys y gymuned yn gwella'r man awyr agored yn yr ardd ac yn helpu i greu amgylchedd mwy croesawgar i bobl sy'n defnyddio'r [gwasanaeth](#) seibiant.



Mae'r ffotograff gwreiddiol yn cynnwys testun Saesneg. Darperir cyfieithiad Cymraeg isod: Pa fathau o wirfoddoli hoffech chi trio? Garddio, Cerdded, Rygbi, Plannu, Gwyllo rygbi, Helpu, Caffi, Golchi dillad, Cefnogi tîm rygbi Glynebwy, Chwarae'r piano, Chwarae pwl, Helpu pobl ifanc yn eu harddegau (ffilmiau byr) YouTube

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol wedi cryfhau gweithgarwch ymyrryd yn gynnar, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mynediad amserol at wasanaethau, gyda hynny'n cael ei ategu gan waith mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol gan gynnwys swydd iechyd meddwl fforensig newydd ledled Blaenau Gwent a Thorfaen. Fodd bynnag, mae capasiti seibiant, gwybodaeth am y galw a defnydd, opsiynau ehangach fel Cysylltu Bywydau, a rhestrau aros ac oedi gydag asesu yn parhau i fod yn feysydd allweddol ar gyfer gwelliant pellach.

Gofalwyr di-dâl

Yn ystod 2025/26, cryfhawyd cymorth i ofalwyr di-dâl trwy adnabod yn gynharach, gwell mynediad at gyngor, asesiadau, cymorth gan gymheiriaid, gweithgareddau llesiant a chymorth ymarferol. Fe wnaeth y Gronfa Cymorth i Ofalwyr helpu gofalwyr sy'n wynebu caledi, tra bo ymgysylltu â'r gymuned wedi cynyddu trwy weithgareddau a gweithio mewn partneriaeth yn lleol gydag Adferiad. Cafodd gofalwyr ifainc ac oedolion ifainc sy'n ofalwyr gymorth wedi'i dargedu hefyd, gan gynnwys asesiadau, cardiau adnabod, grwpiau, cyfleoedd ehangach a chynghor un-i-un. Fodd bynnag, mae ymgysylltiad yn dal i fod yn isel, ac mae angen rhagor o waith i adnabod gofalwyr yn gynharach, codi ymwybyddiaeth, gwreiddio trefniadau newydd a dangos tystiolaeth o effaith.

Gwasanaethau Darparwyr


Yn ystod 2025/26, fe wnaeth Gwasanaethau Darparwyr gynnydd cadarnhaol ar draws gwasanaethau gofal cartref, Cwrt Mytton a llety anabledau dysgu, gan gynorthwyo pobl i aros yn ddiogel, yn annibynnol ac yn iach yn eu cartrefi a'u cymunedau. Fe wnaeth Gofal Cartref a'r Tîm Asesu Swyddogaethol newydd gryfhau'r cymorth ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty, adolygiadau o ofal a mynediad amserol at y lefel gywir o gymorth, tra bo Cwrt Mytton wedi gwella sicrwydd ansawdd, cael adborth arolygu cadarnhaol a gwreiddio systemau digidol i roi cymorth i gynllunio gofal a rheoli meddyginiaethau mewn modd mwy diogel. Fodd bynnag, mae'r galw am ofal cartref ac asesu swyddogaethol yn dal i fod yn uwch na'r disgwyl, gan greu pwysau ar gapasiti, argaeledd y gweithlu ac amseroedd ymateb. Mae recriwtio ar y gweill i gryfhau gwydnwch a chynnal cymorth diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Cartrefi Preswyl Plant Blaenau Gwent

Yn ystod 2025/26, parhaodd darpariaeth breswyl fewnol y Cyngor i ddarparu opsiwn pwysig ar gyfer lleoliadau lleol, gan gefnogi chwech o blant i gyd, er bod meddiannaeth yn dal i fod yn gyfyngedig gydag un person ifanc yn cael llety ar ddiwedd y flwyddyn. Un o'r heriau allweddol oedd paru plant yn ddiogel mewn amgylchedd byw-mewn-grŵp, gan ystyried anghenion unigol, risgiau, bod yn agored i niwed a'r effaith ar eraill yn y cartref. Felly, bydd datblygu Madison House yn y dyfodol yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2026/27, gan gael ei oleuo gan y galw lleol, pwysau digonolrwydd lleoliadau a'r angen i sicrhau bod y ddarpariaeth breswyl yn cyd-fynd ag anghenion plant a phobl ifanc Blaenau Gwent.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Roedd 202 o Blant yn Derbyn Gofal ar ddiwedd y flwyddyn, o'i gymharu â 201 yn y flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth derbyniadau i ofal gynyddu i 73 o blant, o'i gymharu â 53 yn 2024/25. Mae cyfarfodydd diddymu misol a gwaith dirymu gorchmynion gofal yn helpu i gadw'r ffocws ar blant sydd wedi'u lleoli gartref gyda rhieni neu ofalwyr sy'n berthnasau. Disgwylir i'r ailstrwythuro'n ddau dîm Amddiffyn Plant a Llys ac un tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a chynllunio gofal hirdymor gryfhau'r oruchwyliaeth a chefnogi'r strategaeth ar gyfer mynd ati'n ddiogel i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.



Strategaeth Rhianta Corfforaethol

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Cyngor gryfhau rhianta corfforaethol trwy strategaeth newydd 2025–2030, a gyd-gynhyrchwyd gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, staff, aelodau etholedig a phartneriaid. Mae'r strategaeth yn nodi egwyddorion, addewidion a chymau gweithredu clir i wella deilliannau ar draws addysg, iechyd, tai a chyflogaeth, gyda chynnydd yn cael ei fonitro trwy ddiweddariadau Craffu blynyddol.

Mae'r Gwasanaethau Plant hefyd yn parhau i wreiddio ymarfer sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau trwy hyfforddiant, dysgu adfyfryol, ymgysylltu cryfach â theuluoedd a fframwaith archwilio newydd.

Roedd sefydlogrwydd lleoliadau'n dal i fod yn gadarnhaol, heb ryw lawer o darfu ar leoliadau a ddeilliodd o Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a heb i'r un arwain at ddychweliad plentyn i ofal yr awdurdod lleol. Mae heriau allweddol yn dal i fodoli mewn perthynas â lleihau'r ddibyniaeth ar faethu annibynnol a lleoliadau preswyl allanol a gwella hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf gorfodol i ofalwyr maeth.



Defnyddio Lleisiau Pobl Ifanc i Siapio Gwasanaethau trwy'r Fargen a Chenhadaeth 2

Cafodd y rhai sy'n gadael gofal eu cynnwys yn weithredol yn y broses o lunio cymorth trwy gyd-ddylunio gydag Ymgynghorwyr Personol yn y Tîm 14+. Fe wnaeth eu profiad personol oleuo gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar lesiant, gwydnwch a sgiliau bywyd ymarferol, gan gryfhau hyder ac annibyniaeth. Bydd y dull hwn yn parhau er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau yn y dyfodol.




SEWAS, Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru, a Gwasanaethau Mabwysiadu

Fe wnaeth SEWAS gynnydd cadarnhaol o ran recriwtio mabwysiadwyr, sefydlogrwydd, ymarfer sy'n ystyriol o drawma, cymorth mabwysiadu ataliol a sicrhau ansawdd. Cymeradwywyd 32 o deuluoedd mabwysiadu ledled y rhanbarth o fewn y flwyddyn ac fe leolwyd chwech o blant i'w mabwysiadu, gan gynnwys dau o Flaenau Gwent. Cafodd tri phlentyn o Flaenau Gwent eu paru yn ystod y flwyddyn hefyd. Cytunwyd ar strategaeth farchnata tair blynedd ddiwygiedig i ddwyn cynnydd o 10% y flwyddyn yn nifer y mabwysiadwyr a gymeradwyir.

Yr heriau ar draws y gwasanaeth o hyd yw digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys maethu a mabwysiadu, rheoli'r gyllideb ac ymateb i gynnydd yn y galw a chymhlethdod anghenion plant a theuluoedd.

Cymorth Bwydo ar y Fron

Mae'r ymgyrch 'Dewch i Fwydo ar y Fron Blaenau Gwent' yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol, gan weithio gyda phartneriaid iechyd, addysg, busnes a'r sector gwirfoddol i hyrwyddo bwydo ar y fron a chryfhau cymorth lleol. Mae'r data'n dangos tuedd galonogol tuag i fyny ers lansio'r ymgyrch, gyda chyfraddau'n gwella o un flwyddyn i'r llall a'r uchafbwyntiau misol uchaf erioed wedi'u cyrraedd. Mae'r



gweithgaredd partneriaeth wedi digwydd ochr yn ochr â chynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn cyfraddau bwydo ar y fron, er na ellir pennu cyfraniad yr ymgyrch i'r newid hwn o'r data sydd ar gael.



Cymorth Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae Dechrau'n Deg yn parhau i gefnogi teuluoedd ledled Blaenau Gwent trwy wella mynediad cynnar at wasanaethau lleol cydgyssylltiedig ac ehangu'r ddarpariaeth gofal plant. O fis Medi 2025 ymlaen, fe wnaeth cam 3 estyn cymorth i 150 o blant yn rhagor ar draws 15 ardal ychwanegol, gyda chyllid yn y dyfodol yn cael ei geisio i alluogi pob plentyn dyflwydd oed yn y fwrdeistref i gael mynediad at 12.5 awr o ofal plant a ariennir yn ystod y

tymor.

Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ehangu capasiti gofal plant, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg, trwy gymorth ar gyfer darparwyr presennol, Tŷ Chwarae Glyncoed, cyfleuster arfaethedig yn yr egin ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn Nhredegar, a datblygiad pellach ym Mrynawr. Mae'r defnydd o'r Cynnig Gofal Plant wedi cynyddu'n sylweddol ers 2017, gyda phresenoldeb yn dangos defnydd o oriau gofal plant wedi'u harchebu.

Cyfleoedd Chwarae i Blant a Theuluoedd

Cyflwynwyd Asesiad a Chynllun Gweithredu Digonolrwydd Chwarae 2025, gyda chymorth ymgysylltu positif â phartneriaid. Fe wnaeth y grant a chyllid cyfalaf alluogi ystod o weithgareddau chwarae a chyfleoedd i'r teulu, ochr yn ochr â buddsoddi dros £350,000 mewn meysydd chwarae newydd a gwell ledled Blaenau Gwent.



Mae cynnwys y gymuned mewn mannau chwarae lleol yn datblygu drwy grwpiau Cyfeillion Meysydd Chwarae a'r ymgyrch Cymunedau sy'n Creu Cyfle i Chwarae, gan gefnogi nodau ehangach Bargen Blaenau Gwent trwy annog trigolion i helpu i lunio a gwella cyfleusterau lleol. Bydd adolygiad llawn o feysydd chwarae yn 2026/27 yn arwain gwelliannau yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n fwy ar werth chwarae, nodweddion naturiol a thirweddau lleol yn ogystal ag offer.

Galwch Heibio i Chwarae

Trwy'r Fargen a Chenhadaeth 1, mae Blaenau Gwent a Thorfaen wedi alinio Galwch Heibio i Chwarae yn seiliedig ar fodel a gefnogir gan wirfoddolwyr. Mae hyn yn cryfhau perchnogaeth gymunedol, yn helpu i gynnal sesiynau chwarae a dysgu lleol, ac yn galluogi staff i ganolbwyntio cymorth ar deuluoedd y mae arnynt angen arweiniad ynghylch datblygiad cynnar a pharodrwydd ar gyfer yr ysgol. Bydd y ddau gyngor yn parhau i wreiddio'r model a thracio ei effaith.



Cymorth i Deuluoedd a Datblygu Sgiliau



O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd yr Hyb Cymorth i Deuluoedd yn darparu un drws blaen i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael mynediad at wybodaeth a chymorth, gan ddod â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a gwasanaethau ataliol ehangach ynghyd.

Mae'r rhaglen Llwybrau yn helpu oedolion 16 oed a throsodd i feithrin sgiliau ymarferol ar gyfer bywyd, gwirfoddoli a chyflogaeth trwy lwybrau dysgu fel bwyd a maeth, gofal cymdeithasol, gwirfoddoli a hyfforddiant. Mae'r rhaglen eisoes wedi cefnogi dros 135 o bobl, gyda chyfranogwyr yn ennill cymwysterau achrededig a rhai yn symud ymlaen i wirfoddoli, gan gynnwys rolau yn cefnogi Y Big Bocs Bwyd a sesiynau coginio cymunedol yn Ysgol Willowtown.

Digartrefedd

Yn ystod 2025/26, fe barhaodd y Cyngor i ymateb i'r galw cynyddol am dai a phwysau digartrefedd trwy ganolbwyntio ar atal, cynyddu'r cyflenwad o dai, lleihau'r ddibyniaeth ar lety brys a helpu preswylwyr i fyw'n annibynnol.

Roedd y cynnydd yn cynnwys ehangu



prydlesu a darpariaeth Tai yn Gyntaf, cynorthwyo pobl i symud o lety dros dro i lety tymor hwy, bwrw ymlaen â Fflatiau STAR, sicrhau cyllid ar gyfer caffaeliadau eiddo ychwanegol, a gwella symudiad trwy lety â chymorth. Parhaodd cymorth ar gyfer addasiadau ac i fyw'n annibynnol hefyd, gyda 102 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi'u cwblhau, tua £880,000 wedi'i fuddsoddi, ac amseroedd darparu cyfartalog wedi gwella yn ystod

y flwyddyn. Parhaodd gwaith ehangach i wella cartrefi a defnyddio eiddo gwag unwaith eto hefyd. Fodd bynnag, mae'r galw'n dal i fod yn uchel, gyda heriau parhaus mewn perthynas â thai addas cyfyngedig, mynediad at lety rhent preifat, ymgysylltu â landlordiaid, pwysau addasiadau a fforddiadwyedd. Bydd y Cyngor yn parhau i gryfhau partneriaethau, gweithredu'r Strategaeth Dai newydd, ehangu cynlluniau prydlesu a chaffael, ailddechrau defnyddio cartrefi gwag, a datblygu mwy o opsiynau tai â chymorth a fforddiadwy.

Diogelwch Cymunedol

Yn ystod 2025/26, fe weithiodd y Cyngor gyda phartneriaid i wella diogelwch cymunedol ac ymateb i droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thensiynau cymunedol. Fe wnaeth Wardeniaid Diogelwch Cymunedol ddarparu sicrwydd gweladwy mewn ardaloedd problemus, cefnogi ymgysylltiad â thrigolion a busnesau, a rhoi anogaeth i hysbysu'r Cyngor, yr Heddlu a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Daeth y contract i ben ar 31 Mawrth 2026, ar ôl darparu 4,700 o oriau patrolio.



Fe wnaeth y Tasglu Ymddygiad

Gwrthgymdeithasol aml-asiantaeth gydlyn

ymatebion i droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn seiliedig ar leoedd, gan ymyrryd yn gynnar, darparu addysg, gweithgarwch dargyfeirio a gorfodi lle'r oedd angen. Gweithiodd hefyd gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Ieuenctid i hyrwyddo rhaglen [Fearless Crimestoppers](#) ac ennyn ymgysylltiad pobl ifanc mewn ysgolion, lleoliadau ieuenctid ac yn y gymuned. Fe wnaeth partneriaid hefyd fonitro tensiynau cymunedol ehangach, gan gynnwys graffiti a oedd yn gysylltiedig â



chasineb a phryderon a oedd yn gysylltiedig â hil, crefydd a mewnfudo, a gwella hysbysiadau am graffiti. Cofnododd yr heddlu 2,000 o droseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn gysylltiedig yn bennaf â materion amgylcheddol fel tipio anghyfreithlon, sbwriel, baeddu gan gŵn a graffiti.

Fe wnaeth y flwyddyn amlygu gwerth gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu gweladwy ac ymyrryd yn gynnar, gan atgyfnerthu'r angen i gryfhau data, cynnal hysbysiadau gan y cyhoedd a pharhau i weithredu mewn modd wedi'i dargedu. Mae dull clir "fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni" yn parhau i fod yn bwysig fel y gall cymunedau weld bod eu pryderon yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt.

Rhaglen Gwydnwch Bwyd Blaenau Gwent

Defnyddiodd y Cyngor gyllid Cymunedau a Lleoedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gryfhau gwydnwch bwyd ledled Blaenau Gwent, gan weithio gyda Chyngor Torfaen a phartneriaid lleol i wella mynediad at fwyd, bwyta'n iach, tyfu bwyd a chadwyni cyflenwi lleol. Fe ymatebodd y rhaglen i dlodi bwyd a phwysau costau byw hefyd.

Trwy Bartneriaeth Bwyd BG, rhoddodd hyn gymorth i ddatblygu'r [Strategaeth Bwyd Cymunedol newydd ar gyfer Blaenau Gwent](#), cynllun a arweinir gan y gymuned sy'n canolbwyntio ar fwyd iach, fforddiadwy, llesiant gwell, rhwydweithiau bwyd lleol cryfach ac arferion bwyd mwy cynaliadwy.

Fe wnaeth ymgysylltu â busnesau bwyd, tyfwyr a sefydliadau cymorth bwyd cymunedol helpu i adnabod heriau a chyfleoedd lleol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol hefyd.

Cynhaliwyd ystod eang o weithgareddau yn ystod 2025/26 trwy'r rhaglen gwydnwch bwyd, gan gynnwys:

- **Rhaglen Datblygu Bwyd Cymunedol;**
- [Mapio a hyrwyddo](#) ansicrwydd bwyd yn ystod gwylliau ysgol;
- **Gweithdai Rhwydweithiau Bwyd Cymunedol i ddarparu arweiniad a meithrin capasiti;**
- **Gweinyddu cyllid brys ar gyfer cymorth bwyd;**
- **Uwchgynhadledd Fwyd BG; a hefyd**
- **Y Rhaglen [Waste Warriors](#).**

Heriau a Champau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2026/27

- **Cryfhau trefniadau llywodraethu a monitro perfformiad ar gyfer atal a hybiau cymunedol**, fel y gellir dangos tystiolaeth glir o effaith hybiau cymunedol, Canolfannau Clyd ac ymyrryd yn gynnar.
- **Cynnal cymorth cynnar a chymorth wedi'i dargedu i reoli galw cynyddol am ofal cymdeithasol**, yn enwedig lle mae pwysau diogelu a chymhlethdod achosion yn parhau i fod yn uchel ar draws gwasanaethau oedolion a phlant.
- **Cynyddu opsiynau lleoli'n lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**, gan gynnwys maethu, mabwysiadu a darpariaeth breswyl, i ymateb i dderbyniadau cynyddol a gwella digonolrwydd lleoliadau.
- **Gwella mynediad at dai addas, fforddiadwy thai â chymorth**, gan gynnwys addasiadau a chymorth i fyw'n annibynnol, i helpu i reoli'r galw parhaus am dai a gwasanaethau digartrefedd.
- **Defnyddio data lleol ac ymgysylltu â'r gymuned i dargedu camau gweithredu ar ddiogelwch cymunedol, gofalwyr a gwydnwch bwyd**, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, hysbysiadau i wasanaethau'r Cyngor ac ymgysylltiad isel â gofalwyr di-dâl.
- **Hybiau Cymunedol**, gwaith i'w wneud i adolygu cyfleusterau yn y Swyddfeydd Cyffredinol i ystyried cynnwys canolfan gymunedol yn y dyfodol. Gwaith i'w wneud gyda staff i'w uwchsgilio i gefnogi'r cyhoedd gyda'u hymholiadau

Amcan Llesiant 4

Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn Amcan Llesiant 4, gyda chymorth aliniad cryfach drwy'r dull ffederal â Chyngor Torfaen. Mae trefniadau llywodraethu wedi cael eu cryfhau mewn meysydd gan gynnwys ymgysylltu, rheoli risg, archwilio a mynediad gan gwsmeriaid, er bod gwydnwch ariannol a chwblhau cyfrifon statudol yn brydlon yn dal i fod yn heriau allweddol. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol, atebolrwydd, gwella gwasanaethau a thystiolaeth gliriach o effaith.


Yr hyn y dwedom ni y byddem yn ei wneud yn ein Hunanasesiad 2024/25	Yr hyn a gyflawnwyd gennym
Mynd ati'n gyflymach i gyflawni'r argymhellion ynghylch Diogelu Corfforaethol sy'n dal heb eu rhoi ar waith	Mae'r holl gamau gweithredu gwreiddiol a adnabuwyd i ymateb i'r argymhellion diogelu wedi'u cwblhau neu'n rhan o fusnes fel arfer; gyda chamau gweithredu ychwanegol wedi'u hadnabod sydd yn y broses o gael eu rhoi ar waith.
Ymateb i argymhellion archwilio sy'n dal heb eu rhoi ar waith trwy gynllunio busnes a'r offeryn tracio risg a sicrwydd	Mae 75 o 105 o argymhellion archwilio wedi'u cwblhau neu'n rhan o fusnes fel arfer, gyda'r rhan fwyaf o gamau gweithredu sy'n weddill ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed. Cyflwynwyd adroddiad ar yr offeryn tracio risg a sicrwydd i bwyllgorau.
Gwella sut y mae'r broses Asesu Effaith Integredig yn cael ei monitro	Mae trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau wedi cryfhau, ond mae diweddariad penodol ar fonitro asesiadau effaith yn mynd i gael ei gynnal gyda Thorfaen.
Mynd i'r afael ag oedi cyn cyflwyno cyfrifon terfynol a dychwelyd cyfrifon yn y dyfodol erbyn y dyddiadau cau statudol	Roedd barn archwilio 2024/25 yn ddiamod, ond ceir oedi o hyd gyda chyfrifon 2025/26; mae adferiad yn yr arfaeth ar gyfer 2026/27.
Adolygu prosesau recriwtio a gofynion o ran y Gymraeg	Mae hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau, ond mae angen ffocws pellach ar arferion recriwtio a sgiliau iaith y gweithlu.
Cyflawni £34 miliwn o ostyngiadau yn y gyllideb dros y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig pum mlynedd	Pennwyd cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26, ond mae bylchau cyllidebol yn y dyfodol, diffygion ysgolion a phwysau Gwasanaethau Plant yn dal i fod yn sylweddol.
Parhau i fonitro salwch y gweithlu a phennu targedau ar gyfer gwasanaethau a'r Cyngor cyfan	Fe wnaeth salwch ostwng 1.5 diwrnod ac ni chafodd 73% o staff unrhyw absenoldeb. Iechyd meddwl yw'r prif achos o hyd. Mae targedau'r cyfarwyddiaethau wedi cael eu pennu.

Sut ydyn ni'n gwybod?

Nodweddion Cyngor Rhagorol

Mae nodweddion cyngor rhagorol Blaenau Gwent yn disgrifio'r math o sefydliad y mae'r Cyngor yn gweithio i fod. Maent yn adlewyrchu cyngor sy'n hunan-wella sy'n onest am ei berfformiad, yn glir ynglŷn â ble y mae angen gwella ac yn canolbwyntio ar ddwyn deilliannau gwell i drigolion.

Mae Amcan Llesiant 4 yn nodi uchelgais y Cyngor i fod yn sefydliad arloesol ac uchelgeisiol sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd ar yr amser iawn ac yn y lle iawn. Bydd y gweithgarwch a ddisgrifir o dan Amcan Llesiant 4 yn dangos sut y mae'r uchelgais hwn yn cyfrannu at nodweddion cyngor rhagorol.



Cyllid ac Adnoddau

Fe barhaodd y Cyngor i fod â threfniadau rheoli ariannol cadarn mewn amgylchedd a oedd yn gryn her, gan bennu cyllideb fantoledig ar gyfer 2025/26 trwy fonitro'r gyllideb yn rheolaidd, trefniadau llywodraethu a'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Roedd setliad 2025/26 yn fwy ffafriol na'r disgwyl, ac fe wnaeth rhaglen Pontio'r Bwlch adnabod arbedion a'i gwnaeth yn bosibl pennu'r gyllideb heb ddefnyddio cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r SATC yn dal i ddangos bwlch cyllidebol sylweddol yn y dyfodol, sy'n galw am arbedion parhaus, ailddylunio gwasanaethau a rheoli'r galw'n ofalus.

Mae'r sefyllfa alldro dros dro'n dangos amrywiant anffafriol ar y cyfan, gyda chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi gwydnwch byrdymor. Gwasanaethau Plant a diffygion ysgolion yw'r prif bwysau o hyd, gan amlygu'r angen i osgoi dibynnu ar gronfeydd wrth gefn ar gyfer costau cylchol a chryfhau cynlluniau adfer ariannol.

Portffolio/ Pwyllgor	Cyllideb Refeniw Ddiwygiedig 2025/2026 £m	Alldro Dros Dro 2025/2026 £m	Amrywiant Ffaffriol/ (Anffafriol) £m
Adnoddau Corfforaethol	24.91	24.16	0.75
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	94.15	97.29	(3.14)
Oedolion a Chymunedau	48.88	48.10	0.78
Economi a Lle	5.89	5.71	0.18
Gwasanaethau Cymdogaeth	27.71	27.96	(0.25)
Cyfanswm	201.54	203.22	(1.68)

Her lywodraethu arall yw prydlondeb ac ansawdd y Datganiad Cyfrifon. Er y gwnaed cynnydd, gan gynnwys barn archwilio ddiamod ar gyfer 2024/25, ni fydd cyfrifon 2025/26 yn cael eu cwblhau erbyn y terfynau amser statudol arferol. Mae cynllun adfer yn ei le i gryfhau capasiti, hyfforddiant, trefniadau cau cyfrifon, sicrhau ansawdd a monitro, gyda'r nod o ddychwelyd at yr amserlen statudol ar gyfer 2026/27.

Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi dangos rheolaeth ariannol dda yn ystod y flwyddyn, ond mae gwydnwch ariannol yn dal i fod dan bwysau. Mae angen ffocws parhaus ar reoli'r galw, atal, ailddylunio gwasanaethau, technoleg, atebolrwydd cyllidebol, adfer diffygion ysgolion, pwysau yn y Gwasanaethau Plant a gwella cyfrifon statudol.


Y Gweithlu (Cyngor a reolir yn dda)

O ran y sefyllfa yn Chwarter 4 2025/26, mae ein gwybodaeth am y gweithlu fel a ganlyn:

	Cyngor (Gan gynnwys ysgolion)	Oedolion a Chymunedau	Plant, Pobl ifanc a theuluoedd (ac eithrio ysgolion)	Gwasanaethau Corfforaethol	Economi a Lle	Cymdogaethau a'r amgylchedd	Ysgolion
Cyfrif Pennau Cyflogeion	3722	515	994	263	118	358	1474

Cyfrif Pennau Gweithwyr Asiantaeth (Matrix)	24	1	3	2	0	18	Amherthnaso
CagALL Cyflogeion	2437.52	327.27	530.74	243.96	128.73	277.53	929.29
CagALL Cyflogeion fel % o CagALL y Cyngor	100.00%	13.43%	21.77%	10.01%	5.28%	11.39%	38.12%
% y swyddi parhaol sy'n wag (neb a gyflogir yn uniongyrchol i gyflenwi)	6.46%	12.90%	7.69%	10.91%	12.00%	9.52%	Amh.
% Trosiant Llafur	2.02%	2.72%	2.41%	3.80%	3.39%	2.23%	1.02%
Diwrnodau a gollwyd i salwch fesul CagALL (alldro cronrus)	12.34	16.10	9.72	6.70	4.33	16.92	13.33
% y diwrnodau a gollwyd i salwch byrdymor	31%	28%	30%	35%	36%	27%	34%
% y diwrnodau a gollwyd i salwch hirdymor	69%	72%	70%	65%	64%	73%	66%
% y staff heb absenoldeb oherwydd salwch	72.91%	67.58%	77.34%	87.35%	79.66%	76.57%	66.98%

Yn ystod 2025/26, fe wnaed cynnydd o ran cryfhau trefniadau llywodraethu'r gweithlu, cydymffurfiaeth statudol a gwydnwch sefydliadol. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau i bolisiau Adnoddau Dynol, datrys hawliadau cyflog cyfartal, parhau i ddatblygu trefniadau recriwtio a gwerthuso swyddi, cyflawni gweithgarwch cynllunio'r gweithlu, a chydabyddiaeth fel Arweinydd sy'n Hyderus o ran Anabledd. Mae gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Torfaen hefyd wedi bod o gymorth i ddysgu ar y cyd a defnyddio dull mwy ffederal o ymdrin â materion y gweithlu. Mae'r Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau wedi



adolygu llesiant a salwch y gweithlu, ac yn 2025/26 bu gostyngiad o 1.5 mewn diwrnodau a gollwyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 73% o'r gweithlu heb unrhyw salwch. Prif achos absenoldeb oherwydd salwch oedd salwch Seiciatrig / iechyd meddwl sy'n rhoi cyfrif am 22.74% o'r diwrnodau cysylltiedig-â-gwaith a gollwyd. Mae'r adroddiadau llawn i'w gweld [yma](#). Parhawyd i graffu ar lesiant y gweithlu ac absenoldeb oherwydd salwch, gyda gwelliannau wedi'u hategu gan bolisiâu presenoldeb clir, data absenoldeb mewn amser real, cyngor ym maes Adnoddau Dynol, iechyd galwedigaethol, y Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion a mentrau llesiant ehangach. Mae iechyd meddwl yn dal i fod yn faes ffocws allweddol, ac mae adolygiad ar y cyd o arferion absenoldeb oherwydd salwch ar y gweill ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen i gryfhau cysondeb, cydymffurfiaeth a chymorth i'r gweithlu yn y dyfodol.

Iechyd a Diogelwch

Yn flynyddol, disgwylir i'r Cyngor adrodd ar ei berfformiad blynyddol o ran iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith. Cynyddodd nifer y damweiniau/digwyddiadau a oedd yn ymwneud â chyflogeion o 251 yn 2024/25 i 293 yn 2025/26. Gostyngodd nifer y damweiniau nad oeddent yn ymwneud â chyflogeion o 221 yn 2024/25 i 217 yn 2025/26. Gostyngodd nifer y damweiniau/digwyddiadau a oedd yn ymwneud â chyflogeion a oedd yn adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o 18 yn 2024/25 i 15 yn 2025/26.

Diogelu Corfforaethol

Yn dilyn cyfres o ganfyddiadau gan Archwilio Cymru, rhoddwyd pwyslais ar flaenoriaethu diogelu yn gorfforaethol ar draws y Cyngor, gan nodi ei fod yn gyfrifoldeb i bawb. Fel rhan o hyn, sefydlwyd Bwrdd Diogelu Corfforaethol a Grŵp Personau Diogelu Dynodedig ategol, gyda chynrychiolaeth o bob cyfarwyddiaeth. Yn dilyn hyn, datblygwyd cynllun gweithredu i ymateb yn llawn i'r argymhellion diogelu. O ran y sefyllfa ar ddiwedd 2025/26, roedd cyfanswm o 39 o gamau gweithredu wedi'u hadnabod ac o'r rhain:

- Mae 23 wedi cael eu cwblhau neu eu gwneud yn rhan o fusnes fel arfer;
- Mae 6 ar y gweill ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed;
- Mae 4 ar y gweill ond ychydig y tu ôl i'r amserlen darged;
- Mae 0 yn sylweddol y tu ôl i'r amserlen darged; ac
- Nid yw 6 i fod i ddechrau eto.

Iechyd a Diogelwch a'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Cyngor yn adrodd yn flynyddol ar iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith, gyda digwyddiadau a oedd yn ymwneud â chyflogeion, nad oeddent yn ymwneud â chyflogeion a digwyddiadau adroddadwy i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gyd yn gostwng yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn darparu goruchwyliaeth ar risgiau iechyd, diogelwch a llesiant, yn monitro perfformiad, yn rhoi cymorth i gydymffurfio â dyletswyddau polisi a chyfreithiol, ac yn hybu diwylliant diogelwch cadarnhaol i amddiffyn cyflogeion, defnyddwyr gwasanaethau, contractwyr a'r cyhoedd.

Mae cynlluniau i'r dyfodol yn cynnwys dod â threfniadau diogelu corfforaethol ac iechyd, diogelwch a llesiant ynghyd ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen i gefnogi cysondeb, rhoi cymorth i ddysgu ar y cyd a darparu mwy o gapasiti cyfunol.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi'r uchelgais cenedlaethol i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cynnydd yn erbyn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022–2027 yn


cael ei fonitro trwy ddiweddariadau rheolaidd gan wasanaethau a Grŵp Swyddogion Cydymffurfio Craidd y Gymraeg, gan gryfhau goruchwyliaeth, atebolrwydd a chydymffurfiaeth.

Yn ystod 2025/26, canolbwyntiodd y gweithgarwch ar ddatblygu sgiliau Cymraeg staff, gwella cymorth ymarferol i staff y Ganolfan Gyswllt, cynyddu amlygrwydd y Gymraeg a'i defnydd ar draws gwasanaethau a digwyddiadau cymunedol, a chefnogi twf parhaus addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Tredegar.

Mae'r meysydd allweddol ar gyfer ffocws pellach yn cynnwys cryfhau sgiliau iaith y gweithlu, gwella arferion recriwtio, gwreiddio cydymffurfiaeth ar draws gwasanaethau, a chynnal safonau ar ôl cau ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg. Adroddiad Blynnyddol y Gymraeg 2025 – [2026](#).

Cwynion a Chanmoliaeth

NIFER Y CWCYNION A GAFWYD GAN CBSBG




Mae'r Cyngor wedi cryfhau'r modd yr adroddir ar gwynion a chanmoliaeth trwy ddangosfwrdd rhyngweithiol Gwybodaeth am Berfformiad, gan wella amlygrwydd tueddiadau adborth, gwybodaeth ar lefel gwasanaethau a dysgu sefydliadol dros amser.

Yn ystod 2025/26, cafwyd adborth ar draws cwynion corfforaethol, cwynion a chanmoliaeth y gwasanaethau cymdeithasol, gyda pherfformiad a

deilliannau'n cael eu monitro trwy'r dangosfwrdd ac adroddiadau arnynt yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Cwblhawyd y rhan fwyaf o gwynion corfforaethol Cam 1 a Cham 2 o fewn graddfeydd amser disgwyledig, er bod peth oedi'n parhau. Mae cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn dangos darlun cymysg o ran amseroldeb, gan adlewyrchu'r angen i barhau i fonitro perfformiad a dysgu o adborth i roi cymorth i wella gwasanaethau. Cyflwynir adroddiadau ar gwynion a chanmoliaeth i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad diweddaraf i'w weld [yma](#).

Nifer y sylwadau o ganmoliaeth a gafwyd gan CBSBG



Llywodraethu Gwybodaeth

Dangosodd perfformiad llywodraethu gwybodaeth ddarlun cymysg yn ystod 2025/26, er bod perfformiad Rhyddid Gwybodaeth wedi gostwng yn y chwarter olaf a gostwng ychydig yn is na'r lefel ymateb a ddymunir. Nid yw hyn yn gofyn am ymyrraeth ar hyn o bryd, ond bydd perfformiad yn parhau i gael ei fonitro.

Manylion	Nifer 2023/24	Nifer 2024/25	Nifer 2025/26
Cyfanswm y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gafwyd	1044	959	1070

Cyfradd llwyddiant o fewn 20 diwrnod gwaith	918 (87.93%)	878 (91.6%)	956 (89.3%)
Hwyr ond wedi'u darparu	90 (8.62%)*	78 (8.1%)*	80 (7.47%)
Yn Dal Heb eu Darparu	36 (3.45%)*	3 (0.3%)*	34(3.17%)

*cymerwyd y ffigurau hyn ar oddeutu'r un dyddiad y llynedd ond maent wedi gwella ers hynny

Cynyddodd Ceisiadau am Fynediad gan y Testun, gan adlewyrchu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o hawliau gwybodaeth a bod staff yn adnabod ceisiadau'n well. Cwblhawyd y rhan fwyaf o geisiadau dilys o fewn graddfeydd amser statudol, er bod achosion mwy cymhleth ac adnodd-ddwys wedi effeithio ar amseroedd ymateb lle bu oedi.

Cynyddodd adroddiadau torri data yn ystod y flwyddyn. Er y gallai gwell ymwybyddiaeth fod wedi cyfrannu at y cynnydd, mae angen monitro pellach i ddeall yr achosion sylfaenol a nodi unrhyw risgiau ailadroddus.

Archwilio Mewnol

Darperir adroddiad blynyddol, sy'n amlinellu meysydd sydd wedi cael asesiad trwy'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol, i [Bwyllgor](#) Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ac mae hefyd yn cael ei gynnwys yn adolygiad gwrthrychol y Rheolwr Archwilio a Risg o system rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

Cyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol 31 adroddiad archwilio terfynol yn ystod y flwyddyn:

Gradd Archwilio	Nifer yr Archwiliadau
Sicrwydd Llawn	6
Sicrwydd Rhesymol	12
Sicrwydd Cyfyngedig	6
Dim Sicrwydd	3
Heb ei raddio	4

Barn Flynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg

Barn y Rheolwr Archwilio a Risg oedd bod system rheolaeth fewnol Blaenau Gwent yn ystod 2025/26 yn gweithredu ar lefel a oedd yn darparu Sicrwydd Rhesymol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, yn ogystal â nodi sylwadau mewn perthynas â'r Gyfarwyddiaeth Plant a Theuluoedd. Gellir gweld adroddiadau llawn y pwyllgor a barn lawn y Rheolwr Archwilio a Risg [yma](#).

Gwrth-dwyll

Yn ystod 2025/26, fe wnaed cynnydd i gryfhau trefniadau gwrth-dwyll y Cyngor. Cafodd asesiad risg twyll ei greu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd [2025](#), lle cytunwyd bod angen ei fireinio ymhellach cyn ei ddwyn yn ôl gerbron ochr yn ochr â'r Cynllun Gwrth-dwyll. Cafodd y Strategaeth Wrth-dwyll ei chynhyrchu a'i chyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi [2025](#). Darparwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll i'r Aelodau ym mis Hydref 2025, ac fe gafodd sesiwn Ymwybyddiaeth o Wrth-dwyll ei datblygu trwy Thinqi a'i chyflwyno i'r holl swyddogion ac Aelodau ar ddiwedd mis Mawrth 2026.

Rheoli Risg

Mae gwaith yn parhau i gryfhau trefniadau rheoli risg ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae Grŵp Rheoli Risg Corfforaethol yn cael ei sefydlu i ddarparu goruchwyliaeth ar y fframwaith a'r Gofrestr

Risgiau Corfforaethol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r broses o roi meddalwedd Risg Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mynd rhagddi, gyda disgwyl i'r profion ddechrau ar ganol 2026 a disgwylir i'r system fod ar gael yn ystod hydref 2026. Cyflwynir adroddiadau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol bob chwarter trwy'r broses ddemocrataidd ac yn fewnol i'r Cyd-dîm Gweithredol, sydd o gymorth i fynd ati'n gynnar i adnabod, ac i fonitro a rheoli risgiau a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau, gwydnwch ariannol a chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Cyflwynwyd y gofrestr risgiau ddiweddaraf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae i'w chael [yma](#)

Archwilio Allanol

Mae archwilio allanol yn darparu sicrwydd annibynnol ynghylch perfformiad y Cyngor, ei ddefnydd o adnoddau cyhoeddus a'i drefniadau llywodraethu. Yn ystod 2025/26, roedd y Cyngor yn destun 25 adroddiad archwilio a'r rheiny'n cynnwys 105 o argymhellion. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy gynlluniau gwasanaethau, adroddir arno'n fewnol wrth y Cyd-dîm Gweithredol, ac fe'i cyflwynir trwy'r broses graffu, gan gynnwys adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae argymhellion yn cael eu monitro gan ddefnyddio system sgorio BRAGG, sy'n dangos a yw camau gweithredu wedi'u cwblhau, ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed, y tu ôl i'r amserlen darged, yn sylweddol y tu ôl i'r amserlen darged neu heb ddim i fod i ddechrau eto.

O'r 105 o argymhellion:

- Mae 75 yn las (71%)- wedi'u cwblhau neu wedi dod yn rhan o fusnes fel arfer;
- Mae 0 yn goch - yn sylweddol y tu ôl i'r amserlen darged;
- Mae 1 yn ambr (1%) y tu ôl i'r amserlen darged ond y sefyllfa'n un y gellir ei rheoli;
- Mae 26 (25%) yn wyrdd - ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed; ac
- Mae 3 (3%) yn llwyd – ddim i fod i ddechrau eto.

Mae'r adroddiad llawn ar y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion archwilyr allanol i'w weld [yma](#).

Cyd-dîm Gweithredol a Threfniadau Arwain

Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i roi cymorth i ddarparu gwasanaethau, gwneud penderfyniadau a chefnogi uwch arweinyddiaeth trwy'r Cyd-dîm Gweithredol a'r Cyd-dîm Arwain sy'n dod i'r amlwg. Yn dilyn y cytundeb ym mis Ionawr 2025 i Gynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen weithredu o dan un Cyd-Brif Weithredwr, mae trefniadau interim wedi sefydlu uwch reolaeth, gyda swyddi parhaol wedi'u sefydlu a gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu cyd-strwythur parhaol.

Bydd y Tîm Arwain ar y Cyd yn dod ag uwch arweinwyr o'r ddau gyngor at ei gilydd i ddarparu arweinyddiaeth strategol, goruchwyllo rhaglenni cydweithredol a ffederal, cefnogi trawsnewid a chydlynu dulliau ar y cyd lle mae'r rhain yn gwella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd hirdymor. Bydd hefyd yn darparu sicrwydd trwy'r broses GRIPP, gan helpu'r ddau gyngor i ymateb i bwysau ariannol, gweithredol a phwysau ar wasanaethau gan hefyd gynnal eu hannibyniaeth a'u trefniadau llywodraethu democrataidd lleol.

Cydbwyllgor Penodiadau

Mae'r Cydbwyllgor Penodiadau yn gydbwyllgor ffurfiol ar draws Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen a sefydlwyd fel rhan o'r trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r model gweithio ffederal rhwng y ddau awdurdod. Mae'r pwyllgor yn darparu mecanwaith ar y cyd ar gyfer penodi uwch swyddogion i rolau sy'n gweithredu ar draws y ddau gyngor ac sy'n atebol i'r ddau sefydliad.

BGT y dyfodol

Menter arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol ar y cyd ar draws Blaenau Gwent a Thorfaen yw BGT y Dyfodol, a sefydlwyd i ategu'r model ffederal trwy ddod ag arweinwyr a rheolwyr o'r ddau sefydliad ynghyd i ystyried heriau strategol, rhannu syniadau a helpu i lunio'r cyfeiriad at y dyfodol. Mae'n darparu fforwm ar gyfer meddwl yn gydweithredol ac ymgysylltu, gan helpu i sicrhau bod prosesau

penderfynu'n gynhwysol, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau hirdymor i'r cynghorau a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Un o'r meysydd arwyddocaol y mae BGT y Dyfodol yn canolbwyntio arnynt yw rhoi cymorth i ddatblygu a gweithredu'r Fargen. Mae'r rhaglen hefyd wedi rhoi cymorth i ddatblygu diwylliant arweinyddiaeth ar y cyd ar draws y ddau gyngor.

Craffu ar y Cyd

Ym mis Gorffennaf 2026, mae adroddiad i fod i gael ei gyflwyno er mwyn i'r Cyngor gymeradwyo trefniadau craffu ar y cyd fel rhan o'r fframwaith llywodraethu sy'n ategu'r model gweithio ffederal gyda Thorfaen. Mae'r trefniadau'n galluogi aelodau etholedig o'r ddau awdurdod i graffu ar gydwasanaethau, rhaglenni ar y cyd a meysydd gweithgarwch cydweithredol gan hefyd gynnal sofraniaeth ac atebolrwydd democrataidd y naill gyngor a'r llall. Bwriad y trefniadau yw cryfhau goruchwyliaeth ddemocrataidd, craffu'n effeithiol ar flaenoriaethau a pherfformiad ar y cyd, cefnogi tryloywder ac atebolrwydd, a sicrhau bod manteision a deilliannau cydweithio yn destun her ac adolygiad priodol gan aelodau.

Strwythur Gwleidyddol, Aelodau Etholedig a'r Broses Ddemocrataidd

Mae gwybodaeth am brosesau Cyngorwyr a Phwyllgorau Blaenau Gwent wedi'i chynnwys yma:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/cynghorwyr-a-phwyllgorau/>

Mae'r **Cyfansoddiad** i'w weld yma - [2024_constitution_final-v16-finalised-2.pdf](#)

Gellir dod o hyd i **Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25** [yma](#)

Gellir dod o hyd i **Gôd Llywodraethu 2025/26** [yma](#)

Gellir dod o hyd i **Adroddiad Blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd** [yma](#).

Gellir dod o hyd i'r **Adroddiad Craffu Blynyddol** [yma](#).

Mae **Adroddiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** i'w weld [yma](#)

Mae **Adroddiad y Pwyllgor Safonau** i'w weld [yma](#).

Mae **Adroddiad diweddaraf yr Aelod Llywyddol** i'w weld [yma](#)

Gellir dod o hyd i **Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau** [yma](#)

Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent (BGCG)

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi cael ei benodi fel yr awdurdod lletyol i ymgymryd â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer Cydbwyllgor Craffu BGCG a rhoi cymorth a neilltuo ymgynghorwyr pwrpasol iddo.

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bedair gwaith rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Ceir gwybodaeth am y pwyllgor yma [Cyfarfodydd - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent](#)

Rheoli Perfformiad

Fel rhan o'r dull ffederal, mae'r Cyngor wedi alinio trefniadau rheoli perfformiad â Chyngor Torfaen, gan gynnwys amserlenni adrodd cyffredin, prosesau archwilio cryfach ac un dull o gynllunio gwasanaethau o 2026/27 ymlaen. Bydd hyn yn dwyn ynghyd flaenoriaethau allweddol fel y Cynllun Corfforaethol, Egwyddorion Marmot, Cenhadaeth, gweithgarwch ffederal a'r Dull Cymunedau, a ategir gan weithgarwch monitro arferol trwy'r Cyd-dîm Gweithredol.

Mae'r trefniadau hyn yn cryfhau cydweithio, tryloywder ac atebolrwydd, gan hefyd ategu dyletswyddau hunanasesu'r Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd gwaith pellach yn canolbwyntio ar ddatblygu dull sy'n fwy seiliedig ar ddata a gwybodaeth a gwella'r dystiolaeth a ddefnyddir i ddangos cyflawniad a gwelliant parhaus.

Cydraddoldeb

Fe aeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024–2028 rhagddo yn ystod 2025/26, gyda goruchwyliaeth gryfach, monitro gwell, aliniad gwell â chynllunio gwasanaethau, a gweithgarwch dysgu ac

ymwybyddiaeth ehangach lle'r oedd cydraddoldeb yn y cwestiwn. Cryfhawyd y broses Asesiadau Effaith Integredig hefyd trwy'r platfform SNAP, hyfforddiant a llywodraethu mwy eglur, gan helpu i wreiddio cydraddoldeb yn fwy cyson mewn polisi a phrosesau cynllunio a phenderfynu. Mae blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2026/27 yn cynnwys cynyddu'r niferoedd sy'n gwneud hyfforddiant, ymateb i newidiadau i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, ehangu datblygiad aelodau a symud ymlaen tuag at statws Arweinydd sy'n Hyderus o ran Anabledd.


Cynghorau Tref a Chymuned

Gall Cynghorau Tref a Chymuned helpu'r Cyngor i ddeall y materion sy'n effeithio ar y gymuned leol. Mae pedwar Cyngor Tref a Chymuned ym Mlaenau Gwent:

- Cyngor Tref Tredegar [Hafan | Cyngor Tref Tredegar](#)
- Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau [Hafan - Cyngor Tref Nant-y-glo a'r Blaenau](#)
- Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd [Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd – Gwella ardal Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd er budd bywydau, iechyd a llesiant trigolion lleol.](#)
- Cyngor Tref Brynmawr [Hafan - Cyngor Tref Brynmawr](#)

Gwasanaethau Cwsmeriaid

Mae'r Ganolfan Gyswllt yn parhau i wynebu pwysau sylweddol yn sgîl galw cynyddol a mwyfwy cymhleth, yn enwedig mewn perthynas ag ymholiadau ynghylch y Dreth Gyngor, Gwastraff ac Ailgylchu, casgliadau a gollwyd ac adfer. Mae hyn wedi effeithio ar amseroedd trin galwadau ac aros, gan dynnu sylw at yr angen i leihau cyswllt y gellir ei osgoi a gwella sut y mae ymholiadau'n cael eu cyfeirio a'u datrys.



Mae gwaith gwella yn canolbwyntio ar lwybro IVR, sgriptio cliriach, pwyntiau trosglwyddo y cytunwyd arnynt gyda meysydd gwasanaeth, amseroedd trin galwadau byrrach a chynorthwyo staff i ddatrys ymholiadau priodol ar y pwynt cyswllt cyntaf, gan gynnal profiad y cwsmer ar yr un pryd. Eir ar drywydd hyn trwy Gynllun Gwella'r Ganolfan Gyswllt.

Cyfathrebu gyda'n Staff a'u Hysbysu

Mae gan y Tîm Cyfathrebu rôl allweddol o ran rhoi gwybod i drigolion, partneriaid, rhanddeiliaid a staff am flaenoriaethau, gwasanaethau a chyflawniadau'r Cyngor. Yn ystod 2025/26, fe wnaeth cysylltiadau rhagweithiol â'r cyfryngau, y cyfryngau cymdeithasol, ymgyrchoedd â blaenoriaeth a sianeli ymgysylltu newydd helpu i hyrwyddo gwaith y Cyngor, cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chefnogi negeseuon allweddol fel Bargaen Blaenau Gwent, presenoldeb yn yr ysgol a newid ymddygiad amgylcheddol.

Y cyfryngau cymdeithasol yw'r brif sianel o hyd ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion, a ategir gan sianeli gwasanaeth-benodol a chynlluniau i ehangu ar TikTok i gyrraedd cynulleidfaoedd iau. Mae sianeli newydd ac wedi'u hail-lansio, gan gynnwys GovDelivery, yr e-fwletin wythnosol i drigolion a BG Connect, wedi cryfhau ymgysylltiad digidol ac ymgysylltiad arall, gan helpu i gyrraedd trigolion nad ydynt o bosibl yn cael mynediad yn rheolaidd at wybodaeth ar-lein.

Fe barhaodd cyfathrebu mewnol i fod yn bwysig hefyd trwy gylchlythyrau staff, diweddariadau'r Prif Weithredwr a negeseuon ynglŷn â llesiant, gan gefnogi ymwybyddiaeth, cydnabyddiaeth a llesiant staff.

Ymgysylltu a Chyfranogiad

Mae ymgysylltu, cyfranogiad a phrofiad y cwsmer yn themâu hanfodol sy'n dylanwadu ar brosesau dylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymroddedig i gymorth cymunedol hirdymor ac mae'n anelu at gyflawni hyn trwy ymgysylltu'n frwd â'r gymuned. Mae ymgysylltu effeithiol yn hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithlon y Cyngor, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas ac yn diwallu anghenion defnyddwyr. Gellir dod o hyd i'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad gyfredol [yma](#). Mae gwaith i'w wneud yn 2026/27 i adolygu'r Strategaeth i'w halinio ag egwyddorion y Fargen a'r ffyrdd newydd o weithio gyda'r gymuned.

Mae'r Cyngor wedi rhoi [Platfform Ymgysylltu](#) newydd ar waith sy'n darparu mecanwaith i drigolion a rhanddeiliaid gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a rhannu eu barn ynglŷn â materion sy'n effeithio ar Flaenau Gwent.

Arolwg trigolion

Cynhaliwyd yr arolwg Dewch i Ni Siarad: Byw ym Mlaenau Gwent diwethaf ym mis Hydref/Tachwedd 2024. Ar yr adeg honno cafwyd 1,809 o ymatebion gan drigolion Blaenau Gwent. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal bob dwy flynedd a bydd yn cael ei ddosbarthu i'r cyhoedd tuag at ddiwedd 2026. Eleni, mae Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen wedi ychwanegu rhagor o gwestiynau at yr arolwg i ystyried llesiant a deilliannau trigolion.

Ymgysylltu ynghylch y Gyllideb

Er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i bennu cyllideb 2026/27, cynhaliwyd proses ymgysylltu i hysbysu trigolion am sefyllfa ariannol y Cyngor ac i ofyn am eu barn. Rhoddodd y broses ymgysylltu ynghylch y gyllideb gyfle i breswylwyr wneud sylwadau ar faterion allweddol i helpu i oleuo penderfyniadau, megis blaenoriaethu gwasanaethau a phennu lefelau'r dreth gyngor. Aeth arolwg y gyllideb yn fyw ar 4 Chwefror 2026 ac roedd ar gael am bythefnos. Fe'i rhannwyd ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda'r bwriad o annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan a rhannu eu barn. [Adroddiad Cyllideb y Cabinet 2026-27](#)

Digidol, Trawsnewid Data a Thechnoleg

Yn ystod 2025/26, fe gryfhodd Blaenau Gwent drefniadau digidol, data a thechnoleg trwy swyddogaeth Digidol a Data a rennir o fewn y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau a sefydlu Rhaglen Digidol, Data a Thechnoleg wedi'i halinio â Thorfaen. Mae'r trefniadau hyn yn darparu dull digidol mwy strategol, gwydn a chyson ar gyfer trawsnewid digidol, dylunio gwasanaethau, gwella a arweinir gan ddata a buddsoddi mewn technoleg.

Mae gweithgarwch gwella wedi canolbwyntio ar fynediad rhwyddach at wasanaethau, lleihau galw y gellir ei osgoi a defnyddio data'n well. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen Drws Blaen Deallusrwydd Artiffisial, gwella ffurflenni ar-lein y Dreth Gyngor, datblygu dangosfwrdd Un Olwg ar Blentyn, cryfhau gallu GIS, a chymorth data ar gyfer y rhaglen Marmot ffederal i fynd ati'n well i ddeall deilliannau, monitro cynnydd a thargedu ymyriadau.

Mae prosiectau technoleg allweddol wedi cael eu cyflawni hefyd, gan gynnwys datgomisiynu Civica EDM a newid i fodel rheoli dogfennau mwy cynaliadwy, mudo 24 o ysgolion i Deleffoni Microsoft Teams, ac uwchraddio Paysuite360 i wella diogelwch taliadau, profiad cwsmeriaid a chydymffurfiaeth.

Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgysylltu'n ystyrlon ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff wrth bennu Amcanion Llesiant a

gwneud penderfyniadau strategol. Mae'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy sicrhau bod gan staff lais wrth lunio polisiau a chymau gweithredu perthnasol.

Rhaid i'r Cyngor geisio consensws neu gyfaddawd cynnar gyda chynrychiolwyr staff lle y bo'n rhesymol a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y mae wedi cyflawni'r ddyletswydd. Bydd y Cyngor yn ateb y gofyniad hwn trwy ei Adroddiad Hunanasesu a Llesiant blynyddol.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau partneriaeth gymdeithasol trwy ei Gytundeb Cyfleusterau, Cydbwyllgorau Ymgynghorol ac ymgysylltu rheolaidd rhwng Aelodau, swyddogion ac undebau llafur. Yn ystod y flwyddyn, mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar y model ffederal gyda Thorfaen, trawsnewid, rolau ar y cyd, pwysau ariannol, llesiant y gweithlu, cyflogaeth deg a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Cynhelir ymgysylltiad rheolaidd hefyd trwy gyfarfodydd rhwng y Prif Weithredwr, y Cyd-bennaeth Adnoddau Dynol a chynrychiolwyr undebau llafur ar faterion strategol, polisi, gweithredol a'r gweithlu.

Heriau a Chymau Gweithredu Allweddol ar gyfer 2026/27

- **Cryfhau gwydnwch ariannol** trwy reoli'r amrywiant anffafriol o £1.68 miliwn, ymdrin â'r pwysau yn y Gwasanaethau Plant a diffygion ysgolion, a chynllunio ar gyfer bylchau cyllidebol yn y dyfodol.
- **Cwblhau a monitro camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag archwilio'r cyfrifon Statudol** trwy ganlyn arni â'r argymhellion archwilio allanol sy'n weddill a gwella trefniadau i roi cymorth i gwblhau cyfrifon 2025/26 yn brydlon.
- **Lleihau salwch y gweithlu ac ymdrin â swyddi gwag** trwy gynnal ffocws ar bresenoldeb, cymorth iechyd meddwl a phwysau recriwtio ar draws meysydd gwasanaeth allweddol.
- **Gwella perfformiad o ran mynediad cwsmeriaid a cheisiadau am wybodaeth** trwy reoli'r galw yn y Ganolfan Gyswllt a chryfhau amseroedd ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- **Dangos tystiolaeth o effaith trawsnewid ffederal** trwy ddangos deilliannau cliriach, gwybodaeth gryfach am berfformiad a manteision i breswylwyr sy'n deillio o gydweithio gyda Thorfaen.

Blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r tu hwnt

O Gynlluniau i Ddeilliannau

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn adeg bontio bwysig i Flaenau Gwent. Rhaid inni barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da o ddydd i ddydd a chyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol, gan hefyd gyflymu'r newidiadau y mae eu hangen i ymateb i'r galw cynyddol, anghydraddoldeb cynyddol a phwysau ariannol parhaus.

Mae ein cyfeiriad teithio'n glir. Nid yw'r Cynllun Corfforaethol, ein huchelgeisiau Marmot, Bergen Blaenau Gwent, ein pum Cenhadaeth a'r ffederasiwn sy'n datblygu gyda Thorfaen yn rhaglenni ar wahân. Gyda'i gilydd, maent yn un dull o wella deilliannau, lleihau anghydraddoldebau a chryfhau cymunedau. Yn ganolog iddynt mae cred syml: bod newid parhaol yn digwydd pan fo gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau, busnesau a phartneriaid yn cydweithio gan roi sylw i'r deilliannau sydd o'r pwys mwyaf.

Felly nid creu mwy o strategaethau yw'r her ar gyfer 2026/27. Yr her yw sicrhau bod ein huchelgeisiau'n dylanwadu'n fwyfwy ar y penderfyniadau a wnawn, yr adnoddau yr ydym yn buddsoddi ynddynt a'r ffordd yr ydym yn gweithio, fel bod trigolion yn gweld gwahaniaeth pendant yn eu bywydau beunyddiol.

Cyflawni Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2026/27

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac, am y tro cyntaf, mae'n gwreiddio egwyddorion Bargen Blaenau Gwent yn fwy uniongyrchol.

- **Dysgu a Chyfleoedd** – Gwella deilliannau i blant a phobl ifanc, gyda phwyslais penodol ar gyrhaeddiad addysgol, presenoldeb yn yr ysgol ac adferiad ariannol; cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed; cynnal llwybrau ieuencid, sgiliau a chyflogadwyedd; a dechrau cyflawni cynlluniau ar gyfer adfywio, eiddo ac unedau busnes
- **Lleihau Anghydraddoldeb** - Cryfhau atal a chymorth cynnar, gan sicrhau bod pobl yn cael cymorth ar y cyfle cynharaf ac yn gallu parhau i fod yn annibynnol am yn hwy.
- **Meithrin cymunedau cryfach, mwy gwydn** - Cynyddu cyfranogiad, gwirfoddoli ac arweinyddiaeth gymunedol.
- **Cefnogi economi leol ffyniannus a lleoedd llewyrchus** - Adfywio, buddsoddi, datblygu sgiliau a thwf busnes.
- **Cyflawni ein hymrwymiaidau o ran yr hinsawdd a natur** - Gwella perfformiad ailgylchu a chefnogi'r broses o bontio i ddyfodol gwyrddach a mwy cynaliadwy.
- **Gwella mynediad at wasanaethau'r Cyngor** - Cyfuno gwasanaethau digidol o ansawdd da â chymorth wyneb-yn-wyneb a chymunedol hygyrch.
- **Cynnal trefniadau llywodraethu cryf, gwydnwch ariannol a stiwardiaeth effeithiol ar adnoddau cyhoeddus.**

Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau a adnabuwyd trwy ein hunanasesiad blynyddol. Byddant yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer ein trefniadau perfformiad trwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.

Gwneud Atal yn Fusnes i Bawb

Mae atal yn parhau i fod yn ganolog i'n dull hirdymor.

Yn rhy aml, mae gofyn i wasanaethau cyhoeddus ymateb pan fo problemau eisoes wedi dod yn gymhleth ac yn gostus. Ein huchelgais yw symud ymdrech, adnoddau a phrosesau penderfynu tuag at ymyrryd yn gynharach ac atal, gan helpu pobl i fyw bywydau iachach, mwy annibynnol a boddhaus.

Mae hyn yn golygu deall a dylanwadu ar y ffactorau sy'n siapia cyfleoedd bywyd pobl, gan gynnwys addysg, cyflogaeth, tai, iechyd, cysylltiadau cymunedol ac amodau amgylcheddol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni edrych y tu hwnt i symptomau ac ymdrin ag achosion sylfaenol.

Yn ystod 2026/27 byddwn yn parhau i gryfhau'r cysylltiad rhwng atal, cynllunio gwasanaethau, comisiynu, cyllidebu a rheoli perfformiad. Byddwn yn gofyn yn fwyfwy a yw ein penderfyniadau'n lleihau'r galw yn y dyfodol, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn gwella deilliannau hirdymor.

Ni fydd hyn wastad yn hawdd. Mae pwysau ariannol a galw cynyddol yn creu pwysau dealladwy i ganolbwyntio ar anghenion uniongyrchol. Fodd bynnag, er mwyn i ni greu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a gwella deilliannau dros amser, rhaid i atal aros yn ganolog i'n ffordd o feddwl, cynllunio a gweithredu.

Gweithio Gyda Chymunedau, Nid Dim Ond Darparu Iddynt

Mae Bargaen Blaenau Gwent yn cynrychioli newid hirdymor yn y berthynas rhwng y Cyngor, trigolion, sefydliadau cymunedol, busnesau a phartneriaid.

Mae'n cydnabod nad dim ond derbynwyr gwasanaethau yw cymunedau. Mae ganddynt brofiad, gwybodaeth, perthnasoedd, arweinyddiaeth ac asedau sy'n hanfodol i wella deilliannau a chreu lleoedd cryfach.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i symud y tu hwnt i ymgynghori a thuag at gydweithio gwirioneddol a chydgyfrifoldeb. Mae hyn yn golygu cefnogi arweinyddiaeth gymunedol, ehangu cyfleoedd gwirfoddoli, cryfhau partneriaethau lleol a chynnwys trigolion yn gynharach wrth lunio penderfyniadau, gwasanaethau a buddsoddiadau. Ni fydd llwyddiant yn cael ei fesur dim ond yn ôl faint o bobl rydyn ni'n ymgysylltu â hwy. Bydd llwyddiant yn cael ei fesur gan ystyried a yw cymunedau'n cael mwy o ddylanwad ar benderfyniadau, a yw capasiti lleol yn cael ei gryfhau ac a yw gweithredu ar y cyd yn helpu i wella deilliannau lleol.

Cryfhau'r Ffederasiwn

Mae ein partneriaeth gyda Thorfaen yn parhau i ddatblygu ac aeddfedu.

Mae'r model ffederal yn ymateb arloesol i lawer o'r heriau sy'n wynebu llywodraeth leol, gan gynnwys pwysau ariannol, prinderau yn y gweithlu, galw cynyddol am wasanaethau a'r angen am fwy o wydnwch sefydliadol.

Yn ystod 2026/27 byddwn yn parhau i gryfhau trefniadau arweinyddiaeth ar y cyd, alinio systemau a phrosesau lle y bo'n briodol, ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach lle y bo hyn yn dwyn manteision amlwg i drigolion.

Nid newid strwythurol er ei fwyn ei hun yw diben y ffederasiwn. Yn hytrach, creu'r capasiti, y gallu a'r gwydnwch y mae eu hangen i ymdrin â heriau cymhleth, cyflymu dysgu, lleihau dyblygu a buddsoddi mwy o egni mewn atal a gwella hirdymor ydyw.

Wrth i'r ffederasiwn esblygu, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod atebolrwydd democrataidd lleol a hunaniaeth leol yn parhau i gael eu diogelu a'u cryfhau.

Adeiladu'r Sefydliad y Mae ei Angen Arnom

Mae gwireddu ein huchelgeisiau'n dibynnu ar ein pobl.

Trwy gydol 2026/27 byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn datblygu arweinwyr, gallu'r gweithlu, sgiliau digidol, dysgu sefydliadol ac arloesi. Byddwn hefyd yn cwblhau gwaith gyda Thorfaen i sefydlu set gyffredin o Werthoedd ac Ymddygiadau sy'n adlewyrchu'r diwylliant y mae arnom eisiau ei adeiladu ar draws y ffederasiwn.

Bydd y gwerthoedd hyn yn canolbwyntio ar:

- Weithio gyda phobl.
- Gweithio'n agored.
- Cydweithio i gyflawni.

Nid dim ond disgrifio'r diwylliant y mae arnom ni ei eisiau yw ein huchelgais, ond yn hytrach sicrhau bod ein hymddygiadau'n weladwy yn y ffordd yr ydym yn arwain, yn cydweithio, yn gwneud penderfyniadau ac yn gwasanaethu ein cymunedau bob dydd.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn technolegau digidol, data a deallusrwydd artiffisial lle gallant wella gwasanaethau, cryfhau prosesau penderfynu, cynyddu cynhyrchiant a rhyddhau capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau rheng-flaen.

Bob amser, bydd ein defnydd o dechnoleg yn parhau i ganolbwyntio ar wella deilliannau i bobl, gan hefyd sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol i'r holl drigolion.

Mesur yr Hyn sy'n Bwysig

Wrth i'n dull ddatblygu, rhaid i ni ganolbwyntio'n fwyfwy ar y deilliannau yr ydym yn eu dwyn yn hytrach na'r gweithgarwch yr ydym yn ei gyflawni. Ni fydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl nifer y strategaethau, rhaglenni neu fentrau a gyflwynwn. Bydd yn cael ei fesur trwy ystyried a yw bywydau pobl yn gwella.

Dros y blynyddoedd sydd i ddod mae arnom eisiau gweld tystiolaeth ein bod ni'n:

- Lleihau anghydraddoldebau.
- Gwella disgwyliad oes iach.
- Cryfhau cymunedau.
- Cynyddu cyfranogiad ac arweinyddiaeth gymunedol.
- Gwella deilliannau addysgol.
- Cynorthwyo mwy o bobl i gael cyflogaeth dda.
- Lleihau'r galw y gellir ei osgoi ar wasanaethau cyhoeddus.
- Cynyddu buddsoddiad mewn atal.

Trwy ein dull Marmot, gan weithio gyda Chydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd Torfaen a fframwaith tystiolaeth ehangach, byddwn yn parhau i gryfhau ein dealltwriaeth am yr hyn sy'n gweithio, ble y mae deilliannau'n gwella a ble y mae angen gweithredu pellach.

Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu, gan sicrhau bod tystiolaeth, mewnwelediad a phrofiad yn cael eu defnyddio i fireinio a gwella ein dull gweithredu yn barhaus.

Y tu hwnt i 2026/27

Mae'r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn rhedeg tan 2027. Yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2027, bydd Cyngor newydd yn sefydlu ei flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod cynllunio nesaf.

Er y bydd gweinyddiaethau'r dyfodol yn pennu eu blaenoriaethau eu hunain, ac iawn yw hynny, mae'r heriau hirdymor sy'n wynebu ein cymunedau yn annhebygol o newid yn sylweddol. Bydd anghydraddoldeb, newid demograffig, pwysau ariannol, deilliannau iechyd, gwydnwch economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol a llesiant cymunedol yn parhau i siapio penderfyniadau gwasanaethau cyhoeddus am flynyddoedd lawer i ddod.

Felly nid dim ond cyflawni'r cynllun presennol yw ein cyfrifoldeb ni, ond yn hytrach gadael sylfeini cryfach ar gyfer y dyfodol.

Mae arnom eisiau i'r Cyngor nesaf etifeddu sefydliad sy'n ariannol wydn, a arweinir gan dystiolaeth, sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n gallu ymateb yn effeithiol i'r heriau sydd o'n blaenau. Yr hyn y mae arnom eisiau ei adael ar ein hôl yw cymunedau cryfach, partneriaethau cryfach a model gweithredu cryfach ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn y pen draw, mae ein huchelgais yn dal i fod yn syml: creu cymunedau iachach, tecach a mwy gwydn lle gall pobl ffynnu.

Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn gam pwysig arall ar y daith honno. Nid dim ond disgrifio'r dyfodol y mae arnom eisiau ei weld yw'r dasg yn awr, ond parhau i'w adeiladu gyda'n gilydd trwy'r penderfyniadau a wnawn, y perthnasoedd yr ydym yn eu datblygu a'r deilliannau yr ydym yn eu cyflawni.



**Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Hydref 2026**

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud sylwadau ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Perfformiad Corfforaethol

Y Swyddfeydd Cyffredinol

Ffordd y Gwaith Dur

Glynebwy

NP23 6AA

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk